
# ECO'R WYDDFA

RHIF 391 MEDI 2011 PRIS 50c

*Dilwyn Green, Penisarwaun. Cafodd ddegau o wobrau yn Sioe Môn a sioe Fflint a Dinbych a'i iâr yn bencampwr y sioeau.*

# PENCAMPWYR CYMRU–ETO!

Fis Gorffennaf roedd enillwyr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn cael sylw'r dudalen flaen. Dyna ddefnyddio'r un pennawd y mis hwn hefyd, a llongyfarch pawb a fu'n fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Ond roedd llwyddiannau hefyd mewn meysydd eraill, a'r un yw ein llongyfarchion i'r enillwyr rheini.

**Band Llanrug** – Tlws Ivor Jarvis a'r wobr gyntaf yn yr Ail Ddosbarth.




*Band Llanrug*



**Leusa Gwenllian, Llanrug** – gwobr gyntaf am adrodd dan 12 oed.



**Math Roberts, Cwm y Glo** – trydedd wobr am ganu'r delyn.



**Magi Tudur, Penisa'rwaun** – Tlws Pat Neill.



**John Eifion a Lois, Penisa'rwaun** – gwobr gyntaf ar y ddeuawd cerdd dant.

**Elfed a Catrin, Deiniolen** – trydydd wobr yn yr un gystadleuaeth.

**Lois Eifion, Penis'rwaun** – trydydd wobr ar yr unawd cerdd dant.



*Eifion Harding, Y Winllan, hefo Tecwyn, sef Pencampwr Defaid Penfrith Bryniau Cymru yn y Sioe Frenhinol a hefyd yn sioe Eglwys Bach wedyn.*



**Carwyn John, Bethel** – gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn.

**Deg Darn Arian, Deiniolen** – gwobr gyntaf ar y grŵp offerynnol.

**Gethin Wavell, Llanrug** – arddangos ei waith yn y Babell Gelf.

**Rebecca Wilson, Dinorwig** – ennill pencampwriaeth iau karate Cymru yng Nghaerdydd yn ystod mis Awst.

**Ben Rowlands, Cwm y Glo** – cael ei ddewis mewn cystadleuaeth McDonald's i arwain allan un o chwaraewyr Manchester United yn gêm fawr gyntaf y tymor yn Stadiwm Wembley. Eu gwrthwynebwyr oedd Manchester City yng nghystadleuaeth y Darian Elusen.

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 391**
**MEDI 2011**
*Argraffwyd gan Wasg Dwyfor Penygroes 01286 881911*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Straeon ac erthyglau ar e-bost i**
alwenaowen@gmail.com
neu
Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu:
ecorwyddfa@gmail.com

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis (01286) 670726) g.elis029@btinternet.com

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263) glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Llanberis (870740) eifionroberts132@btinternet.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


**Y RHIFYN NESAF**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS SUL, 18 MEDI**
**Os gwelwch yn dda.**
**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, 29 MEDI**
**Dyddiad Gosod**
**NOS SUL, 23 MEDI**
**Sefydliad Coffa Llanrug**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2011

| Rhifyn | Copi | Gosod | Plygu | Ble |
|---|---|---|---|---|
| Medi | Medi 18 | Medi 23 | Medi 29 | PENISARWAUN |

# *Llythyrau*

## Cymry Llundain

Annwyl Olygyddd
*Aelodaeth rhad ac am ddim i fyfyrwyr Cymru*

A ydych chi'n adnabod rhywun fydd yn astudio yn Llundain o fis Medi? Mae Canolfan Cymry Llundain yn cynnig aelodaeth AM DDIM i fyfyrwyr Cymru. Lle gwych i gwrdd â ffrindiau newydd, ymarfer bandiau neu i wylio'r rygbi. Am fwy o wybodaeth ewch i'r safle we www.cymryllundain.org.uk; ffoniwch 020 7873 3722 neu ebostiwch Huw Jackson: huw@lwcentre.demon.co.uk.

Yn gywir

RHIANNON LEWIS

## Aduniad blwyddyn 1976 Ysgol Brynrefail

**un mlynedd ymlaen...**

Roedd aduniad llynedd cymaint o lwyddiant fel i lawer a oedd yno ofyn am rhywbeth i'w ddilyn eleni. Penderfynwyd cael cyfarfod yn Table Top, yr Harbwr, Caernarfon, ar nos Wener, 30 Medi am 7:30 yr hwyr. Beth sydd rhaid i'r rhai â diddordeb ei wneud? Wel dim byd ond troi i fyny, jioio, janglio a gweld hen ffrindia. Wel, fe allech wneud un peth bach - deud wrth bawb da chi'n i feddwl fuasai â diddordeb am y digwyddiad. Does dim ffurfiol wedi ei drefnu a cewch archebu pryd bwyd ar y noson. Felly ffwrdd a chi at eich e-bost, ewch i Drydaru, ffonio, anfon testun, negesu ar Facebook neu ffonio, hyd yn oed ysgrifennwch lythyr - ond taenwch y neges. Diolch

ALAN WYN WILLIAMS

*Dyma aduniad y llynedd - llun na gafwyd tan rwan!*




## Age Concern

**Ydych chi dros 50 oed, eisiau gweithio neu wirfoddoli?**

Mae prosiect newydd ar y gweill gan Age Concern Gwynedd a Môn i gynnig cymhwyster mewn Darpariaeth Gweithgareddau mewn Lleoliad Gofal. Cynhelir hyfforddiant yng Nghaernarfon unwaith y mis am bum mis gydag oddeutu 5 awr yr wythnos i astudio. Yn ogystal bydd dau ddiwrnod arbenigol gan Y Groes Goch Brydeinig ar Dylino a Thrin Dwylo, a Thylino Gwddf ac Ysgwydd. Bydd cyfle i wirfoddoli a chael profiad gwaith mewn amryw o leoliadau gofal ac fe geir cefnogaeth gydol yr amser gan y tiwtor, mentor a rheolwr y prosiect. Gobeithir cychwyn mis Hydref 2011.

Ar ddiwedd y cwrs, cyflwynir tystysgrif lefel 2 NCFE (Northern Advisory Council of Further Education) ac fe anogir y myfyrwyr i geisio am gymwysterau pellach. Hefyd bydd gwybodaeth a chyngor am ffordd i mewn i waith ar gael.

Mae'r hyfforddiant yn rhad ac am ddim ac fe delir unrhyw gostau teithio. Os ydych yn meddwl fod y cwrs yma i chi, cysylltwch â Margaret Tuzuner ar (01286) 677711 neu Margaret@acgm.co.uk

## PLAID CYMRU HELFA DRYSOR

**Noson o Hwyl a Chwilota**

Nos Fercher, 14 Medi
Cychwyn o arosfan Ysgol Brynrefail am 6.15 yr hwyr

£4 y car

Enwau ac archeb bwyd cyn gynted â phosib i Nan (675668) neu Meryl (677149)

Croeso cynnes iawn i bawb ymuno yn yr hwyl

# RHODDION

**£20:** Ilid a'r teulu, Morfa Nefyn er cof am Gwen ac Ifan Joan a'r teulu i gofio am Cledwyn Parry, Deiniolen; Dilys a Cyril Jones, Ael Y Bryn, Stryd Newton, Llanberis; Er cof am Donald Pritchard, Ty'n Y Ffordd, Minffordd Road, Llanrug; Er cof am Mrs Grace Roberts[Anti Gracie], 1 Waterfall View, Llanberis.
**£10:** Riannon a Merfyn, Clawdd Newydd, Llanrug er cof am Mair Jones, 8 Hafan Elan; Gwyneth Williams, Llain yr Ardd, Bethel; Mrs Megan Morris, Minffordd, Dinorwig; Nowie, Edith ac Elfyn a theulu y ddiweddar Sally Griffith, gynt o 16 Bryntirion, Penisarwaun; Elfyn a Menna, Blaen y Nant, Waunfawr; Glyn a Rhianwen, er cof am Mary Olwen Jones, Deiniolen; Marian ac Ifan, 12 Ffordd Deiniol er cof am Jane Evelyn Parry; Enid, Delfryn, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Mrs Anne Wilson Evans, 'Manod', Ffordd Capel Coch, Llanberis; Eleanor Jones, 2 Bron y Waun, Penisarwaun; Shirley Jones, Camelot, Penisarwaun; Mrs Nan Evans, 26 Bryn Tirion, Penisarwaun.
**£5:** Carwyn John, Bethel; Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr, Penisarwaun. Miss Munro, Cynan, Llanrug




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

# Teyrnged i Selwyn Griffith

Dyn y pethe bach oedd Selwyn a wnaeth ei ore i bawb. Gŵr cyffredin, o gartre cyffredin, mewn pentre cyffredin a bro gyffredin. Mae ei dystysgrif geni yn dweud mai Griffith Selwyn Griffith oedd o. Unig fab John a Gwladys Griffith, Gwynfryn, Bethel, a aned 83 o flynyddoedd yn ôl i draddodiad o lafurio dygn, o annibyniaeth digyfaddawd a charedigrwydd di-ben draw.

Roedd gan ei dad dair chwaer a phan fu farw'r olaf, Anti Gwawr, fe ddywedodd ei gefnder wrtho mai y fo oedd wedi cael y cyfan ar ei hôl, ond bod yna hanner tunnell o lo ganddi ac roedd croeso i Selwyn gael hwnnw. Yn ystod y dyddie rheini, dyma rhywun yn dweud wrtho,

'Mae'n siŵr i ti fod yn lwcus ar ôl dy Anti Gwawr.' Yntau'n ateb,

'Do, lwcus iawn, mi losgais i'r cyfan a gefais ar ei hôl hi.' A dyna i chi'r direidi a'r sydynrwydd ymadrodd a oedd yn perthyn iddo.

Ers pan yn ddim o beth roedd ganddo ddiddordeb byw mewn ffwtbol. Roedd o'n Gyn-lywydd Anrhydeddus i gynghrair pêl-droed y Gwynedd League. Cynghrair timau fel Bethel, Bontnewydd a Llanllyfni. Ond i Selwyn, dyna'r '*premiership*' lleol, ac mi gwelech o yn gwylio'r timau yma ymhob rhyw dywydd. Sawl gwaith y bûm i'n eistedd hefo fo ar yr Oval ac yntau yn yr het ffwr honno yn fawr ei ganmoliaeth i hogiau'r ddau dîm.

Y Sadwrn wedi iddo'n gadael roedd y Gwynedd League yn dechre'r tymor, a phob tîm, gan gynnwys Caernarfon Town o gynghrair uwch, yn sefyll am funud o ddistawrwydd i gofio am un o'r ffyddloniaid. Mi fydde wrth ei fodd hefo'r deyrnged ddistaw yne iddo.

Bu'n glarc y Cyngor Plwy am 46 o flynyddoedd. Dyna ichi waith di-ddiolch. Darllen llythyre, delio hefo probleme, sgwennu atebion a chadw cofnodion. A gwneud hynny gyda graen a thrylwyredd.

Meddyliwch amdano wedyn yn cynnal colofn yn fisol yn y papur hwn. A hynny o'r rhifyn cyntaf un. Y cyfan yn dwt a thaclus, ac os *dead line, dead line* amdani. Y stwff i 'O Siambar Selwyn' yn cyrraedd mewn da bryd yn ddiffael. Llafur cariad, oedd hefyd yn gyfraniad arbennig iawn i'w ardal a'i fro.

Selwyn Griffith, Selwyn Iolen – beirniad adrodd a llên. Cychwyn ar ei daith eisteddfodol ym mhlwy Llanddeiniolen a gorffen y daith honno yn Neiniolen rhyw ddwy flynedd yn ôl, a dyna'r cylch yn gyfan. Y *circuit* eisteddfodol wedi'i gwblhau. Ac yn sgil ei gyfraniad a'i ffyddlondeb i'r steddfodau bach fe ddaeth i feirniadu yn y Genedlaethol ac, yn binacl ar y cyfan i gyd, yn Archdderwydd.

Ac oherwydd na ddaru o ddiystyru'r pethe bach, mi ddaeth y mawr i'w ran.

Yr Archdderwyddiaeth. A wyddoch chi, mi wnaeth y job hefo graen ac urddas. A hynny am ei fod yn gwneud 'i waith cartre ac yn paratoi'n fanwl ac mewn da bryd. Yr hyn oedd yn ei boeni oedd, a fydde fo'n gallu trin ambell aelod anystywallt o Fwrdd yr Orsedd a chadeirio cyfarfodydd y bwrdd. Ond mi lwyddodd i wneud y cyfan gyda sensitifrwydd a chwa o awyr iach. Oedd, mi roedd Selwyn yn medru trin pobol. Mi oeliodd gymale styfnig y sefydliad nes eu cael i droi yn esmwyth a naturiol am fod y pethe bach yn cael sylw ganddo.

'Ti oedd Archdderwydd y Werin, Sel,' meddwn i wrtho'n ddiweddar.

'Wst ti be, Geraint,' medde fo, 'fel yne yr hoffwn i gael fy nghofio.' Ac fel yne y caiff o ei gofio.

Roedd o'n fardd plant Cymru ers degawdau cyn i'r term yna ddod i boblogrwydd. Y cannoedd o ddarnau adrodd a gyfansoddodd - dros 400 ymhell ohonyn nhw. Dyna gyfraniad pwysig a sylweddol iawn, iawn a gyfoethogodd ein llenyddiaeth plant yn ddi-ben draw. Ac, fel athro a phrifathro, fe groniclodd yr hyn a welodd ac a glywodd mewn sawl llyfr barddoniaeth. Roedd o'n fardd, athro a beirniad â naturioldeb a diniweidrwydd y plentyn yn sylfaen i lawer o'i ddarnau.

A be am yr elfen grwydrol? Wel, mi fu Selwyn a Meira ymhob twll a chornel o'r hen fyd yma. Mi fûm i a Iola hefo Meira ac ynta ar ein gwyliau yng Nghala Bona yn Sbaen (roedd o'n mynd yno ddwywaith y flwyddyn). Mynd ein pedwar wedyn i gynrychioli Gorsedd y Beirdd i Gernyw a mwynhau pob munud o'r ymweliadau hynny.

Cael fy atgoffa o'r amser pan oedd wedi ei ddal yng Nghorris Uchaf yn gwneud mwy na 30mya a phan ddeallodd i mi ei chael hi yng Nghoedpoeth noson y coroni yn Wrecsam, yr unig beth a ddywedodd oedd 'snap'.

A dyna ddywedodd o hefyd pan rois i'r goron ar ei ben o. 'Snap.' Ac mi rydw i'n sobor o falch 'i fod o wedi cael gweld y seremoni ddydd Llun y steddfod yn yr ysbyty, a'i fod o wedi cael gwisgo'r goron ychydig ddyddiau wedyn, a hynny ar ei aelwyd yng Nghrud yr Awen.

Fe ddywedodd ei weinidog, Y Parch Gwynfor Williams, wrtha i mai braint fwya'i fywyd oedd cael bod yn weinidog arno. A'i fod yn glamp o Gristion gloyw. Be fwy fedr neb ei ddweud.

Cysga'n dawel yr hen fet, a diolch am dy gyfeillgarwch, Sel.

GERAINT LLOYD OWEN




ARVONIA

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau




**Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA**
Ffôn: **01286-675175** • Ffacs: **01286-671126**
E-bost: **info@arvonia.co.uk** • Gwefan: **www.arvonia.co.uk**

L.G. OWEN
PENISARWAUN
GWAITH ADEILADU CYFFREDINOL
Gwaith Cerrig- walio a gwynebu
Gwaith Tir-dreinio
Decio a Ffensio - Patios
Llwybrau- Concretio - Dreifs
Bloc Paving a Tharmacio
Gwaith o safon, gyda prisiau rhesymol (Yn gwbwl yswiriedig)
CYSYLLTWCH ▶ 07896739544
NEU ▶ 07787532369

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CAPEL Y CYSEGR. Cafwyd Gwasanaeth Cymun arbennig y Sul yn ddiweddar pan dderbyniwyd nifer o ieuenctid yr Eglwys yn gyflawn aelodau gan y Gweinidog, Y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Braf oedd cael cwmni cyfeillion a theulu y rhai ifanc fel iddynt dystio i'r achlysur arbennig. Roedd yr wyth wedi bod yn aelodau ffyddlon yn yr Ysgol Sul ac, fel y soniodd y Gweinidog, yn cychwyn ar gyfnod arall yn eu bywydau. Cymerwyd rhan gan bob un yn unigol ar ddechrau'r gwasanaeth ac yna yn dilyn y Derbyn cyflwynwyd Llyfr Emynau neu Feibl i'r wyth gan Ysgrifennydd yr Eglwys, Jenkin Griffiths.




**DERBYN AELODAU NEWYDD**

*(O'r chwith): Manon, Gethin, Gruffydd, Gwenno, Y Parch. Marcus Wyn Robinson, Enfys, Llio, Arron a Lowri.*

CLWB BRO BETHEL. Bydd y cyfarfod cyntaf o'r Clwb brynhawn Mawrth, Medi 6ed yn Festri Bethel am 2.00 yng nghwmni y Parchedig W. R. Williams. Bydd cyfle i ymaelodi am £2 a chroesawir unrhyw aelod newydd sydd am ymuno â'r Clwb. Bydd paned ar gael ar ddiwedd pob cyfarfod.

PWYLLGOR EISTEDDFOD BETHEL

**Noson Goffi Medi'r 9fed 2011 yn Capel Cysegr am 6.00pm. Mynediad £1, plant am ddim.**

Bydd rhaglen a thestunau'r Eisteddfod ar gael a chyfle i blant cynradd ac uwchradd roi eu henwau ymlaen os am gystadlu mewn partion llefaru, canu a cherdd dant yn yr Eisteddfod eleni. Bydd stondinau cacen, tombola a raffl yno ac mi fyddwn yn ddiolchgar o unrhyw gyfraniad tuag at y noson. Os oes gan rywun ddiddordeb mewn hyfforddi parti, plîs rhowch wybod ar y noson neu ffonio Lowri 670329.

* * *

Cyfarfod i aelodau'r Pwyllgor i gadarnhau trefniadau'r noson, Nos Lun 6 Medi am 7:00pm, Capel Cysegr.

LLONGYFARCHIADAU i Carwyn John ar ei fuddugoliaeth yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn, sef y brif gystadleuaeth i lefarwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Mae o yn un o nifer bach iawn, iawn sydd wedi ei hennill ddwy waith. Go dda ti!

DIOLCH. Dymuna Gwyneth, Llain yr Ardd, a'r teulu ddiolch i'w ffrindiau, cymdogion a chydnabod am y llythyrau, cardiau, ymweliadau a'r galwadau ffôn ar achlysur eu profedigaeth ddiweddar. Diolch yn arbennig am y rhoddion hael a drosglwyddwyd i Gartref Henoed Maesincla a Meddygfa Stryd y Farchnad, Caernarfon.

DIOLCH am gefnogi taith i Batagonia. Wedi derbyn e-bost ddoe yn cynnwys amseroedd yr awyrennau i Batagonia, mae Bronwen Price yn edrych ymlaen hyd yn oed yn fwy nag erioed. Mae eisiau dweud diolch wrth bawb a roddodd mor hael at yr Ocsiwn Addewidion oherwydd, heb eich rhoddion chi ni fuasai wedi bod yn bosibl codi y swm rhagorol o £1,343 ar y noson. Mae hefyd eisiau cymryd y cyfle i ddweud diolch wrth bawb sydd wedi bod mor gefnogol tuag at yr achos. Diolch yn fawr.

MERCHED Y WAWR. Cynhelir y noson agoriadol i dymor newydd y gangen yn festri Capel Cysegr nos Fercher, 14 Medi am 7 o'r gloch. Ar y dechrau bydd cyfle i ymaelodi a derbyn gwybodaeth am weithgareddau'r tymor.

Teulu cerddorol ac amryddawn Aelwyd y Gân o Fodedern, Ynys Môn, fydd yn ein diddori am weddill y noson ac fe fydd aelodau'r pwyllgor wedi trefnu lluniaeth ysgafn i ddilyn. Fe gefnogir y noson gan Gynllun 'Noson Allan' Cyngor Celfyddydau Cymru.


Fe fydd yn braf cael croesawu ein haelodau yn ôl ar ddechrau tymor newydd gan estyn gwahoddiad cynnes iawn i rai sydd am ymuno â ni ar y noson.

Eto eleni mae rhaglen amrywiol a diddorol wedi ei threfnu ar gyfer y tymor ac yn siŵr y bydd pawb yn edrych ymlaen i fwynhau'r gweithgareddau a'r gwmniaeth hapus, hwyliog a chynnes sydd yn ein cangen.

DIOLCH. Hoffai Carwyn John ddiolch o galon am yr holl gardiau, y negeseuon a'r galwadau ffôn a gafodd yn dilyn ei lwyddiant yn ennill Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn am yr eildro.

# NANT PERIS

GOFALWYR. Cynhelir bore coffi gan fudiad Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr yng Ngwesty'r Padarn Lake, Llanberis rhwng 10.30-12.30 fore Iau, 22 Fedi 2011. Mae croeso i ofalwyr yr ardal ymuno â ni am baned a gobeithiwn gael cyfarfod â gofalwyr newydd. Bydd stondin gwybodaeth budd-daliadau a bwrdd gwerthu cacennau. Croeso i chi i gyd.





*Meirion, Kenneth a Richard o Treialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch yn cyflwyno siec o £300 i Tracy a Janet o adran Caernarfon o Ymchwil y Galon, Elusen y Treialon am 2010.*

*Cafwyd Treialon llwyddiannus eto eleni ar Awst 13eg. Diolch i'r ardal am eu cefnogaeth a'u rhoddion.*

Cofiwch ddefnyddio
**SWYDDFA POST BETHEL**
(01248) 670261
ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m. (Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)
Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**
Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.
**A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)**

**Stôf Draddodiadol neu FODERN i gynhesu eich tŷ**
CYSYLLTWCH Â
fflam .biz
**JOHN HUGHES a'i FAB**
IARD LO · Carmel · Gwynedd
01286 882160


J.M. JONES
*a'i Feibion*
LLANRUG
Gwaith Coffaol
Ffon Gwaith
01286 672898
Cartref
01248 679089
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

# DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

DIOLCH. Dymuna Mrs Megan Morris, Minffordd, ddiolch yn fawr iawn i'r plant, Eurwyn a Marsli, a'i holl deulu a ffrindiau, am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag ati ar achlysur ei phen-blwydd yn 96 oed. Diolch am y llu cardiau, arian, blodau ac anrhegion. Diolch i bawb am y caredigrwydd mawr.

GWELLHAD BUAN. Da yw deall fod Mrs Bety Bower, Tan y Marian, yn gwella ar ôl bod i mewn ac allan o Ysbyty Gwynedd dros y gwyliau. Brysiwch wella, Betty.

Hefyd yr ydym yn falch o ddeall fod Mrs Alice Thomas, Bro Elidir gynt, yn gwella ar ôl bod yn Ysbyty Gwynedd am gyfnod ond erbyn hyn yn ôl yng Nghartref Plas Pengwaith. Brysiwch wella, Mrs Thomas, yr ardal i gyd yn anfon eu cofion atoch.

MARWOLAETH. Ar 14eg o Orffennaf daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth sydyn Ivor Vaughan Phillips yn 55mlwydd oed. Gorfu iddo symud o'r ardal i Ddyffryn Nantlle dros ddwy flynedd yn ôl.

Un o blant yr ardal oedd Ivor ac yn hollol sicr felly y cofir amdano gan yr ardalwyr. Cafodd ei eni yn un o efeilliaid yn yr ysbyty ym Mangor ac yna hyd nes yr oedd yn dair oed cafodd ei fagu yn Quarry Cottage, Blue Peris. Ei dad a'i fam oedd y diweddar Mr a Mrs Alun Phillips. Bu iddynt symud i 6 Maes Eilian fel teulu. Ar ôl colli ei rieni aeth Ivor i fyw i 3 Maes Eilian, cyn iddo briodi efo Iona Wiliams, pryd y bu iddynt gartrefu yn 12 Maes Eilian, lle y ganwyd iddynt ddwy o genod, sef Dona a Sioned ac yno y bu fyw hyd at dros ddwy flynedd yn ôl.

Yr oedd yn daid hoffus a charedig iawn i Hayley a'r diweddar Tomos. Byddai yn dod yn ôl i'r ardal yn aml iawn er mwyn cael gweld Hayley, yr oedd yn meddwl y byd ohoni ac yn ei charu yn fawr.

Doedd yn ddim byd, ar hyd y blynyddoedd, gweld Ivor druan yn cerdded i fyny ac i lawr o Ddeiniolen, ac yn aml iawn yn cario llond ei ddwylo o neges, a hynny cyn saith y bore, neu yn hwyr y nos, ac os y byddai yn cael ei godi byddai yn hynod o ddiolchgar ac ni âi allan o'r cerbyd deb ddiolch. Y Sul olaf y gwelais ef yn yr ardal, pan oeddwn yn mynd i'r capel, yr oedd yn cerdded i Ddeiniolen yn Pen y Bwlch, a codais ef. Yr wyf yn hynod falch erbyn heddiw imi wneud, fawr o wybod ei bod y gymwynas olaf.

Yn ystod ei oes credaf ei fod wedi cerdded milltiroedd. Bu yn gweithio yn chwarel Penrhyn hyd nes iddo gael damwain i'w fraich. Bu am gyfnod yn gweithio i Menter Fachwen hefyd.

Fe fu ei angladd ar 25 Gorffennaf yn Eglwys Crist Llandinorwig. Gwasanaethwyd gan y Parch Idris Thomas, Trefor, un ag oedd yn adnabod Ivor yn dda iawn a braf oedd gweld hogiau yr ardal, a oedd wedi eu dwyn i fyny hefo fo, wedi gwneud amser i ddod i dalu'r gymwynas olaf.

Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent yr Eglwys. Yr oedd Ivor yn un o wyth o blant, sef ei efaill Margaret, Sheila, Charles, Stephen, Leonard, Shirley a'i ddiweddar chwaer, Christine. Yn anffodus nid oedd Sheila yn bresennol gan ei bod yn cartrefu yng Nghanada. Braf oedd gweld Paul wedi gallu dod o'r Almaen.

Mae yr ardal yn cydymdeimlo yn fawr â'r teulu yn eu galar a'u hiraeth a heddwch i'w lwch.

CYDYMDEIMWN yn fawr â Mrs Mona Roberts (Mona, Craigle) yn ei phrofedigaeth fawr o golli Gwynfor, ei gŵr, yn Ysbyty Gwynedd yn 73 mlwydd oed ar 19 Gorffennaf, (o 12 Stad Garnedd, Star, Gaerwen bellach), tad arbennig iawn i Ian a Kevin. Mae Mona yn cael amser caled ar hyn o bryd gan iddi, ar 22 Ebrill, golli ei chwaer hynaf, Gwenda, ac fel Gwenda, bu hithau yn aelod ffyddlon a gweithgar yn Eglwys St Mair wedi'i dwyn i fyny ar aelwyd grefyddol iawn.

Fe fu angladd Gwynfor yn gyhoeddus yn Eglwys Santes Fair, Llanfairpwll, ar 27 Gorffennaf a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Rhandir Hedd.

Mona, yr ydym fel ardal yn meddwl llawer amdanat, ac yn cofio am yr hen amser. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf atat ti a'r hogiau. Boed iti gael nerth oddi uchod yn ystod y misoedd tywyll yma. Cofia am yr amser braf pan oeddych yn blant yn byw yn Craigle a phawb yn adnabod pawb yn yr ardal.

GWELLHAD BUAN. Da yw deall fod Mrs Eileen Davies, 10 Bro Elidir, wedi gorffen ei thriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ac yn cryfhau bob dydd. Y mae Eileen wedi mynd drwy gryn dipyn yn ddiweddar. Yr ydym fel ardal yn dymuno adferiad llwyr a buan iddi. Eileen, brysiwch wella.

DYMUNIADAU GORAU. Gan fod y dyddiau yn tynnu i mewn erbyn hyn, gwaetha'r modd, felly wrth gwrs y mae gwyliau'r haf yn tynnu tua'r terfyn. Gawn ni ddymuno yn dda i'r rhai sydd wedi gadael yr ysgol ac yn mynd i'r coleg neu i unrhyw swydd arall, a chan gofio hefyd am y rhai fydd yn gorfod mynd i'r ysgol am y tro cyntaf gan newid eu bywyd yn gyfan gwbl, gan nad oes ganddynt syniad beth sydd o'u blaenau.

LLONGYFARCHIADAU i'r rhai sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau, gan obeithio y gallant fynd ymlaen â beth bynnag yr oeddynt wedi edrych ymlaen am ei wneud.

Pob lwc i'r holl blant i'r dyfodol.


Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**

Ffôn : **01286 870462**

Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

**Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed**

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau



**Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:**
Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
**www.ageuk.org.uk/products**

AGE Concern — Age UK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig. Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig. Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwyddedd rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 CS041484_11

*Dylan Griffith*

*Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol*

**TROS-Y-WAEN PENISARWAUN**

*Gwaith Cerrig Beddi*
*Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol*
*24 Awr y Dydd*
*Capel Gorffwys Preifat*
*Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



**CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

# CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

COLLED. Bu farw Idris Jones, Crud yr Awel, Rhosbach, ar 1 Gorffennaf yn 88 oed. Un o Fethesda Bach, bu'n byw yng Nghrud yr Awel ers iddo briodi May yn 1952. Cynhaliwyd yr angladd brynhawn Iau, 7 Gorffennaf, yng Nghapel Caeathro, ac wedyn ym Mynwent Llandwrog. Cydymdeimlwn yn arbennig â'i weddw, May, a'r meibion Gareth a Geraint.

PWYLLGOR EISTEDDFOD YR URDD, GLYNLLIFON, MEHEFIN 2012. Diolch i'r trefnwyr, y gwirfoddolwyr a'r rhoddwyr, casglwyd £545 tuag at y Gronfa Leol trwy gynnig pacio bagiau siopwyr yn archfarchnad Morrison yng Nghaernarfon ar 8 Gorffennaf.

Bydd y Pwyllgor nesaf am 7 y h., nos Lun, 19 Medi, yng Nghanolfan y Capel.

Gwelir gerllaw luniau o'r timau a chwaraeodd yn y gêm bêl-droed yn ystod yr haf rhwng tîm *Rownd a Rownd* a thîm Sêr Caeathro a Chylch.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Ar ddydd Sul, 4 Medi, bydd dau achlysur arbennig.

Am 11:00 bydd Andrew Settatree, Gweithiwr Ieuenctid Cristnogol Cynllun Efe ym Mro Eco'r Wyddfa yng Nghanolfan y Capel er mwyn cwrdd â phlant, pobl ifanc a rhieni Caeathro a Chylch. Y bwriad yw trafod anghenion Addysg Gristnogol heddiw - yr Ysgol Sul, clybiau ieuenctid Cristnogol, cyfleoedd yng Ngholeg Y Bala, ayyb.

Am 2:00 bydd gwasanaeth derbyn aelodau ifanc newydd i'r Eglwys gan ein Gweinidog, Y Parch. Marcus Wyn Robinson. Gweinyddir y Cymun fel rhan o'r oedfa.

11 Medi: 11:00 Ysgol Sul.
18 Medi: 10:00 Dr. Tudor Elis, 11:00 Ysgol Sul.
25 Medi: 11:00 Ysgol Sul.

COLLED. Bu farw'r Prifardd Geraint Bowen, Stad Glandŵr, ar 16 Gorffennaf yn 95 oed. Un o Lanelli, Y Parc a Minffordd, Tal-y-llyn, bu'n byw yng Nghaeathro ers 20 mlynedd. Cydymdeimlwn yn arbennig â'i weddw, Sonia, a'r plant - Steffan (a fu'n cadw Tafarn Brengain), Siân a Nia.

TYNFA FISOL. Enillwyr Tynfa Fisol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro mis Gorffennaf oedd: £40: (59) Hefin Hughes, Lleifior; £25: (36) Wyn Jones, Drws y Coed; £15: (81) Sharon Hughes, 11 Tai Glangwna; £5: (52) Meic Jones, 10 Bryn y Gof.

Enillwyr Tynfa Fisol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro mis Awst oedd: £40: (40) Helen Jones, Maes y Coed; £25: (97) Dewi Jones, 13 Erw Wen; £15: (20) Ifor Hughes, Lleifor; £5: (33) Cledwyn Jones, Ysbytty.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn dra diolchgar am gefnogaeth hael barhaol yr hap-chwaraewyr. Gall unrhyw oedolyn yng Nghaeathro a'r cyffiniau gyfrannu trwy dalu £2 y mis (gan gynnwys trwy Orchymyn Sefydlog Banc / cymdeithas adeiladu). Diolch yn arbennig i'r aelwydydd sydd cyfrannu £4 rhwng pawb.

FANDALIAETH. Yn anffodus bu dau achlysur o fandaliaeth yn y pentref yn ddiweddar. Yn gyntaf torrwyd ffenestr yn y Ciosg Ffôn. Gall costau trwsio difrod o'r fath danseilio parhad gwasanaeth angenrheidiol ac mae'n fygythiad i barhad yr unig giosg yn y pentref.

Wedyn torrwyd ffenestr hysbysfwrdd y pentref. Y Cyngor Cymuned biau fo, ac felly bydd y gost i'w drwsio ar Dreth y Cyngor. Felly mae'n fantais i bawb atal POB digwyddiad anghyfreithlon o'r fath. Anogir tyst i unrhyw ddigwyddiad o'r fath gysylltu â'r Heddlu, dweud wrth "CrimeStoppers" neu dorri gair gyda chynghorydd lleol.



*Tîm Rownd a Rownd*



*Tîm Sêr Caeathro a Chylch*

# Côr Meibion Dinas Bangor

Yn ystod misoedd Mai a Mehefin bu'r arweinydd, James Griffiths, yn arholi yng ngwlad Malaysia. Er iddo fod yn gweithio yno sawl tro o'r blaen dyma'r tro cyntaf iddo weithio yn Penang, Ipoh, Taiping a sawl tre arall gan gynnwys y brif ddinas Kuala Lumpur. Yn ystod y cyfnod yma yr oedd y Côr yng ngofal y Dirprwy Arweinydd, Gwilym Lewis, ac, wrth gwrs, Lowri Roberts Williams y cyfeilydd.

Cafwyd sawl cyngerdd llwyddiannus iawn yn ystod yr amser yma gan gynnwys dau yn Llandudno, sef Eglwys St John ac Eglwys Y Drindod Sanctaidd. Cafwyd cynulleidfaoedd gwych ac fe werthwyd niferoedd o CD y Côr yn y ddau gyngerdd.

Diolchir i bawb gymerodd ran yn y cyngherddau hyn, sef yr unawdwyr yn ogystal â Howard Hughes, y cyflwynydd.

Y mae'r Côr bellach yn paratoi ar gyfer yr ymweliad â Soll yn Awstria ym mis Medi. Ar gyfer yr ymweliad y mae dau ddarn newydd yn cael ei ddysgu sef Sing Mal Wieder yn yr Almaeneg a threfniant Gwilym Lewis o'r alaw werin, Tros y Garreg, sydd wedi cael ei ysgrifennu yn bwrpasol gan Gwilym ar gyfer y Côr a'r ymweliad.

Wythnos fydd cyfnod y Côr yn y pentref, sydd yn un o'r mwyaf hardd yn ardal y Tirol yn Awstria. Yng nghanol y pentref ceir eglwys y plwyf sydd gyda'r harddaf yn Ewrop - enghraifft gwych o adeiladu a phensaerniaeth cyfnod y Baroc yn Ewrop. Yn yr eglwys hon y bydd y Côr yn canu a hefyd ceir darnau ar yr organ yn ogystal ag eitem gan Gareth Hughes ar yr euphonium. Mae Gareth, wrth gwrs, yn aelod o'r Côr ac yn adnabyddus i ni'r Cymry fel un oedd yn arfer canu'r Corn Gwlad yn yr Eisteddfod Genedlaethol am flynyddoedd. Y mae Soll yn ganolfan dwristiaeth bwysig iawn yn Awstria ac yn ddiddadl fe fydd yr eglwys yn llawn ar gyfer y cyngerdd.

Tra yn Awstria bwriedir ymweld â thref hynafol Salzburg, man geni y cyfansoddwr Mozart.

Dyma'r trydydd gwaith i ni fel Côr ymweld â Soll ac unwaith yn rhagor y mae edrych ymlaen eiddgar iawn at yr achlysur.

**WAVELL'S**
**Bryn ac Angela Williams**
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
**PEN CIGYDDION Y FRO**
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU**
**DEWCH ATOM NI!**

**CERIS JONES**
Teglan,
Stâd Talybont
**LLANRUG**
**677362**
neu symudol
**07979620996**
- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

FINE ART TRADE GUILD
**ORIEL CWM**
**Cwm y Glo**
**Ffôn/Ffacs:**
**(01286) 870882**
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
**Richard S. Humphreys**

# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

DIOLCH. Dymuna Nowie, Edith ac Elfyn a theulu y ddiweddar Sally Griffith, gynt o 16 Bryntirion, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu hannwyl fam. Diolch yn fawr am y rhoddion tuag at feddygfa Tal y Bont, Llangefni, a Liverpool House, Waunfawr. Diolch arbennig i'r Ficer Lloyd Jones a'r Canon Geraint Edwards am wasanaethu yn yr angladd ac i'r organydd, Mr W.H. Williams. Diolch hefyd i Dylan Griffith am ei drefniant gofalus.

YSGOL GYMUNED

**Ffarwelio.** Bore dydd Gwener, 15 Gorffennaf, cafwyd cyfarfod arbennig i ffarwelio â Bl.6 ac i ddymuno'n dda iddynt yn Ysgol Brynrefail ym mis Medi. Roedd pob un ohonynt wedi adrodd ychydig o'r atgofion oedd ganddynt tra'n ddisgyblion yn yr ysgol. Ffarweliwyd yn ogystal â rhai o'r staff: Mrs Sharon Ray a fydd yn cychwyn ar swydd newydd yn Ysgol y Gelli ym mis Medi; Miss Rhian Roberts sydd yn mynd ar absenoldeb mamolaeth a Miss Anest Jones wedi darfod ei chyfnod yn yr ysgol dan gynllun Hyfforddiant Gwynedd. Dymunodd y Pennaeth y gorau iddynt i'r dyfodol.

**Gwobr y diweddar Mr Selwyn Griffith.** Cyflwynwyd y wobr eleni am y gwaith gorau yn y Gymraeg i Catrin Alaw Walker. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad at Mrs Myra Griffith a'r teulu yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl.

**Cyflwyno Tarian Newydd.** Penderfynwyd cyflwyno tarian am y tro cyntaf eleni i'r disgybl sydd wedi dangos y mwyaf o ymroddiad i bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol yn ystod y flwyddyn. Y sawl oedd yn deilwng o'i derbyn eleni oedd Magi Tudur, derbyniodd yn ogystal dlws i'w gadw am byth. Llongyfarchiadau.

**Llongyfarchiadau.** Mae'n bleser o'r mwyaf i ni fel ysgol a phentref gael llongyfarch Magi Tudur am ddod yn gyntaf trwy Gymru yng nghystadleuaeth Barddas am ysgrifennu cerdd.



Cyflwynwyd Tlws y diweddar Pat Neill i Magi yn y Babell Lên ble y cafodd gyfle i ddarllen y gerdd i gynulleidfa niferus Ymryson y Beirdd ar y dydd Iau yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Wrecsam. Mae pawb yn falch iawn o dy lwyddiant, Magi, ac yn dymuno'r gorau i ti yn y dyfodol.

CRONFA'R PENSIYNWYR. Enillydd pêl bonws mis Mehefin oedd Mrs Carole Porter gyda rhif 31, ac enillydd mis Gorffennaf oedd Mrs Ann Paterson gyda rhif 48. Llongyfarchiadau iddynt.

YSGOL SUL BOSRA. Wedi seibiant dros yr haf bydd yr ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, 11 Medi, am 10.00 y bore. Croeso cynnes i aelodau newydd.

DEUNAW OED. Pob dymuniad da i ti, Alys, Gwyddfor, ar achlysur dy ben-blwydd arbennig yn 18 oed.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON – Cylch Caernarfon. Diolch yn fawr iawn i Elizabeth Jones ac Ann Ifans am gynorthwyo gyda'r casgliad o dŷ i dŷ. Diolch i bawb am y cymorth a'r diddordeb. Casglwyd y swm anrhydeddus o £178.

SIOEAU. Llongyfarchiadau eto eleni i Cenin ac Eifion Harding gyda'u defaid ac i Dilwyn Green hefo'i adar yn y gwahanol sioeau.

PWYLLGOR NEUADD. Enillwyr Clwb Cant Awst oedd Nia Lewis, Penpwllcoch a Gwyneth Owen, Llys y Gwynt. Cynhaliwyd noson Miri Haf ym mis Gorffennaf a dymunir diolch i blant yr Ysgol Gynradd, i Glesni a Tanya a phawb arall a gyfrannodd ac a gefnogodd y noson.

Y gweithgaredd nesaf fydd 'Noson Calan Gaeaf' gyda nifer o gystadlaethau, megis y wisg orau, ysgub gorau, swynion, teisen Calan Gaeaf ynghyd â stondinau a raffl. Fe'i cynhelir yn y Neuadd Gymuned ddydd Llun, 31 Hydref. Bydd rhagor o fanylion i ddod.

DIOLCH. Dymuna Gwenda, gofalwr yr Ysgol a'r Neuadd Gymuned, ddiolch o galon i aelodau Pwyllgor yr Eisteddfod Bentref am eu cydnabyddiaeth. Dymuna Elinor Jones, 2 Bron y Waun Terrace ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn ei phrofedigaeth o golli ei brawd Alun o Gaernarfon.

ARHOLIADAU

Llongyfarchiadau mawr i ti, Mari Deiniol, 12 Bryn Eglwys, ar dy lwyddiant ym Mhrifysgol Caerdydd. Pob hwyl i ti gyda'th Radd Uwch.

Llawenhawn hefyd o glywed am lwyddiannau llu ohonoch o'r pentref yn eich amrywiol arholiadau. Pob dymuniad da i'r rhai fydd yn mynd i'r chweched, i'r amrywiol golegau neu yn dechrau ar swydd newydd. Da iawn chi i gyd.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys iawn â Kate Rosser, Delyth Williams a Dafydd Price wedi eu profedigaeth o golli brawd annwyl, Elfyn.

Anfonir ein cydymdeimlad dyfnaf at Nia a Bryn ac Emily a Liam ar golli Gwyneth, mam ofalus Nia, mam yng nghyfraith Bryn a nain gariadus Emily a Liam.

Awst 9fed yn dawel gartref yng Nghrud yr Awen, 6 Bryn Eglwys, bu farw Selwyn Griffith, gŵr Myra a thad Euron a'i briod, Jacci, a thaid Tali. Bu'r angladd cyhoeddus yng nghapel Salem Caernarfon ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Sant Deiniol, Llanddeiniolen. Anfonir ein cydymdeimlad llwyraf atoch fel teulu.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD 2012. Diolchir i'r criw fu wrthi'n ddiwyd yn gwerthu nwyddau at yr apêl yn ystod y Carnifal. Cynhelir Pwyllgor yn fuan i orffen y gweithgareddau tuag at Apêl Brynrefail a Phenisarwaun.

LLWYDDIANT CERDDOROL

Llongyfarchiadau i ti, Magi Tudur, ar ennill Gradd 3 gydag Anrhydedd hefo'r Piano. Dyma flwyddyn hynod o lwyddiannus i ti, Magi, mewn sawl maes. Da iawn chdi a dalied ati.

CARNIFAL 2011. Cafwyd wythnos hynod o lwyddiannus o'r 3ydd hyd y 9fed o Orffennaf. Bu'r Carnifal ei hun yn hynod boblogaidd gyda nifer o ffrindiau o bentrefi'r Eco yn ymuno â'r rhialtwch. Roedd y tywydd yn hynod braf ac roedd y cystadlu, y gwerthu a'r prynu yn ardderchog. Dyma un o'r Carnifalau gorau ers blynyddoedd a bu'r baneri lliwgar a Chymreig drwy'r pentref yn ychwanegu at yr hwyl.

Y Galwr profiadol oedd Arwel, Cae Eboni, a'r beirniaid oedd Nora O'Brien, Bangor a'r brodyr, Mathew a Gethin Philips. Brenhines y Carnifal oedd Elin Thomas gyda'i gosgordd Georgina ac Abby ac Owain Herd. Prif enillwyr y Carnifal oedd Ioan a Gethin.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Bydd trefniadau ar gyfer 2012 yn dechrau yn fuan. Bu'n wythnos fythgofiadwy a chymdeithasol. Diolch o galon i bawb.





**DODREFN PERKINS**

**(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON**

**Ffôn: (01286) 676 040**

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD 2012.
Diolchir i'r criw fu wrthi'n ddiwyd yn gwerthu nwyddau at yr apêl yn ystod y Carnifal. Cynhelir Pwyllgor yn fuan i orffen y gweithgareddau tuag at Apêl Brynrefail a Phenisarwaun.

EISTEDDFOD BENTREF 2011. Cynhaliwyd chwip o Eisteddfod nos Wener, 1 Gorffennaf, yn y Neuadd Gymuned gyda'r Beirniaid hwyliog Glesni Owen, Botwnnog, a Mari Gwilym, Caernarfon. Diolch i'r ddwy am eu sylwadau adeiladol ac am eu hanogaeth i'r cystadleuwyr ifanc.

Diolch hefyd i Eirian Pritchard am ei sylwadau calonogol am yr adran Gelf ac i Janice Jones am feirniadu'r Coginio. Diolch i Sioned Parry am ei hanerchiad difyr, llawn atgofion melys, ac am ei rhodd haelionus i'r Eisteddfod.

Gwerthfawrogwyd sylwadau canmoladwy y Beirniad Llên, sef Arwel, i holl waith yr adran Cynradd a'r Uwchradd a bu'r ymateb i'r Limrig a'r Frawddeg yn glodwiw iawn!

Bu'r cystadlu yn yr adran Cynradd yn hynod safonol a hynny o 6 o'r gloch hyd 10.30. Braf gweld y Meithrin a'r Derbyn yn llwyfannu mor hyderus. Fe fwynhaodd pawb y Parti Babanod a'r ddau barti Iau. Uchafbwyntiau'r adran Iau i lawer oedd meim i'r gân 'Coffi Du', a'r ymgom gan Magi a Catrin Alaw o 'Mynd i Lundain' o *Te yn y Grug*. Roedd pawb wedi rhyfeddu gweld Moi Tudur gyda'i ddawns 'Reggae'. Bu'n eisteddfod wych i Magi Tudur a Catrin Alaw – cipiodd y ddwy nifer o wobrau am ganu, llefaru, ymgom ac ysgrifennu. Magi Tudur gafodd y fraint o dderbyn Tarian Sharon am y llefaru gorau a Magi hefyd enillodd 'Tarian Prif Lenor Cynradd 2011.

Cafwyd cystadlu brwd gan yr Adran Uwch eleni hefyd gyda nifer yn ymateb yn dda i'r her o lefaru, canu, darllen o'r Beibl, meim i record, offerynnau, sgets a pharti canu, ynghyd â chystadlaethau celf a choginio. Da iawn nhw am eu cefnogaeth.

Prif Lenor yr Adran Uwch oedd Anest Bryn gyda beirniadaeth aruchel gan Arwel. Ymson Charcharor, sef Iddewes yn Bergen Belsen a gipiodd y wobr i Anest. Anest oedd cyfeilydd yr Eisteddfod hefyd a diolchir iddi am ei gwaith caled.

Ceisiodd tri ymgeisydd ar y gystadleuaeth arbennig, Ysgrif, Stori neu Gerdd 'Llanddeiniolen Yfory'. Nia George oedd yn haeddiannol o'r wobr o £25 gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen a hynny gyda chanmoliaeth gan y Beirniad, Richard Llwyd Jones, Bethel. Bu hon yn noson lwyddiannus i Nia hefyd.

A hithau ymhell wedi hanner nos roedd y cystadlu yn parhau yn fyrlymus a hwyliog. I'r rhai ymhell dros 18 oed cafwyd Parti Cyd-adrodd, Parti canu a Grŵp Cân Ysgafn ac roedd beirniadaethau Mari Gwilym a Glesni yn ddoniol ond yn werthfawrogol tu hwnt.

Daeth yr Eisteddfod i ben am 1.15 y bore a phawb wedi mwynhau noson o gystadlu cyfeillgar a safonol. Edrychir ymlaen am Eisteddfod 20112 gan obeithio y ceir yr un ymateb gwych.

Diolchir i bawb, yn aelodau'r Pwyllgor, Staff yr ysgol, rhieni, hyfforddwyr, Llywydd y noson ac, wrth gwrs, y cystadleuwyr brwd.



*Glesni a Tania a fu'n cystadlu'n frwd drwy'r nos.*



*Magi Tudur a Catrin Alaw fel Wini a Begw o* Te yn y Grug





*Prif ennillwyr y Carnifal – Ioan a'i frawd, Gethin, yn y tanc.*



*Elin, Brenhines y Carnifal a'i gosgordd, Abbi, Georgina ac Owain.*

PLYGU'R ECO. Penisarwaun fydd yn gyfrifol am blygu'r rhifyn nesaf. Taer erfynnir am eich cymorth i'w blygu yn Neuadd yr Eglwys ddydd Iau, Medi 29 o'r pnawn ymlaen. Diolch.

## WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Dyma enillwyr y Clwb 4300 am *fis Mehefin:* £30: Ms Pearl Williams, Parc; £20: Mr D.W. Jones, Dwyfor; £10: Mr T.E. Jones, Penrhyn, Lôn Ddewi, Caernarfon. *Mis Gorffennaf:* £30: Mrs S. Parry, 8 Pant y Waun; £20: Mr D.G. Davies, Bryn Teg; £10: Mr J.H. Edwards, Anneddle.

MERCHED Y WAWR. Cafwyd tri chyfarfod hwyliog i gloi'r tymor eleni. Ddiwedd Ebrill daeth y cyflwynydd teledu hoffus a thalentog, Mr Russell Jones atom i'r Ganolfan i sôn am ei waith. Cafwyd cyfarfod difyr a diddorol, a rhaid dweud bod yr ieir wedi mwynhau hefyd! Diolch yn fawr, Russell, a gobeithio bod yr ardd – a'r ieir – yn dal i ffynnu.

Ym mis Mai daeth Mr Erddin Llwyd, un o drigolion y pentref, atom i sôn am Waunfawr TV. I'r rhai ohonoch sydd yn dechrau holi – beth yw Waunfawr TV – yr ateb yw nad oes y fath beth – eto! Ond buom yn gweithio'n galed yn llunio syniadau ar gyfer rhaglenni posib yn ymwneud â'r pentref a rhaid dweud wrth weld cynnyrch criw dawnus a dyfeisgar Merched y Wawr y byddai gennym ddigon o ddeunydd i lenwi nifer o raglenni. Diolch, Erddin, am noson oedd yn gwneud i ni feddwl am destun perthnasol iawn o ystyried ein bod yn symud fwyfwy i oes 'cynnyrch defnyddwyr' ar y cyfryngau.

Yna i gloi'r tymor ar 23 Mehefin, cafwyd taith i bentref hyfryd Moelfre ar arfordir Ynys Môn (taith fer iawn i ambell un oedd yn digwydd bod ar ei gwyliau yno'n barod) a chael cwmni difyr y Parch Huw John Hughes i'n tywys ar daith fer ar hyd yr arfordir i sôn am longddrylliadau'r *Royal Charter* a'r *Hindlea*, ac am wrhydri cocsyn bad achub Moelfre, Richard Evans, y gwelir ei gofeb yn y pentref. Roedd hi'n noson braf a'r môr fel gwydr, ond mor fyw oedd disgrifiad ein tywysydd nes y gellid credu bron ein bod ni yno'n bresennol yng nghanol rhyferthwy'r gwynt a'r tonnau. Ac oherwydd ymchwil manwl y Parch Hughes clywsom wybodaeth a manylion difyr nad ydynt ar gael mewn llyfrau. Diolch yn fawr i'r Parch Hughes am rannu ffrwyth ei ymchwil manwl gyda ni, ac am adrodd y cyfan yn ei ddull bywiog ac eneiniedig ei hun.

Wedi ffarwelio â'r tywysydd, aethom i fwynhau pryd ardderchog o fwyd ym Mhantri Ann. Roedd y bwyd yn flasus dros ben a'r staff yn hyfryd ac rydym yn ddiolchgar am y croeso Cymreig a Chymraeg a gawsom.

Diolch yn fawr i'n swyddogion ac i'r pwyllgor i gyd am drefnu blwyddyn o gyfarfodydd difyr iawn. Edrychwn ymlaen at ailafael ynddi ym mis Medi. Estynnwn groeso cynnes i aelodau hen a newydd i'n cyfarfodydd a byddwn yn cylchredeg manylion rhaglen y flwyddyn nesaf cyn gynted ag y byddant ar gael.

GENEDIGAETHAU. Ganwyd ŵyr bach newydd, Elgan Huw, i Don a Luned Roberts, Sŵn y Gwynt. Mab i Martin a Miriam a brawd bach i Owain.

Daeth Dafydd ac Yvonne Beech, Rose Mount, yn daid a nain i ŵyr ac wyres fach. Ganwyd mab, Teilor Morgan, i Martin a Bethan, Bryn Arfon, a ganwyd merch, Elain Dafydd, chwaer i Catrin, i Andrew a Judith yn Llanrug.

Ŵyr bach, Rhion Gwyn, a anwyd i Robat a Bethan, Gwernydd, mab i Edryd a Mitchell.

Daeth Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn yn hen nain i Oliver William, mab bach a anwyd i'w hŵyr, Gwyn ac Elizabeth yn Llanbedrog. Brawd i Emily a Jessica.

Llongyfarchiadau mawr i'r teuluoedd a chroeso mawr i'r rhai bach.

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Emma Louise, Stad Tref Eilian, ar ei phriodas â Tim o Lanllyfni. Dymunwn bob hapusrwydd ichi eich dau yn eich cartref yn Llanllyfni.

PEN-BLWYDD PRIODAS. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Norman ac Olwen Williams, Llidiart Wen, ar fu'n dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

DATHLU PEN-BLWYDD. Dymuniadau gorau a'n cofion cynhesaf at Mrs Betty Hughes, Collfryn, a Mrs Winnie Evans, Lleifior. Bu'r ddwy yn dathlu pen-blwydd go arbennig ddechrau mis Awst.

LLONGYFARCHIADAU. Eleni eto, mae yna rieni a theuluoedd yn ymfalchio yn llwyddiant eu plant a'u pobl ifanc yn yr arholiadau pwysig mewn ysgol a choleg. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch a dymunwn yn dda ichi wrth fynd ymlaen i'r cam nesaf yn eich gyrfa.

DYMUNA teulu Lesley, Stad Bryn Golau; teulu Deion, Tan-coed; teulu Nia Elin, Eilian Teras a theulu Gemma Markham, Fron Llwyd, eu llongyfarch ar eu llwyddiant yn graddio o'u cwrs coleg.

Dechrau Medi bydd amryw yn cychwyn gyrfa mewn ysgol, coleg a swydd newydd. Dymunwn bob hapusrwydd ichi, o'r ieuengaf i'r hynaf.

Dymunwn yn dda i Mr Gareth Fôn Jones, Cae Glas, ar ei benodiad i swydd prifathro Ysgol Gynradd Dolbadarn, Llanberis.

LLONGYFARCH. Mae Duncan a Gill Brown, Gwelfor, yn daid a nain balch wedi llwyddiant eu hŵyr yn Eisteddfod yr Urdd a'u hwyres yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Taid a nain balch arall yw Mr a Mrs Jones, Cartrefle (gynt) yn awr o Gaernarfon, wedi i'w hŵyr, Rhys Iorwerth, ddod yn Brifardd y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Wrecsam.

Hefyd, gwelsom Iola Ynyr, Dolwar Fach, yn brysur yn ystod wythnos yr Eisteddfod gyda gweithgareddau Cwmni'r Frân Wen ar y maes.

Bu amryw o'r pentref yn arddangos eu hanifeiliaid ac yn cystadlu yn yr amrywiol sioeau amaethyddol. Llongyfarchiadau i chi i gyd ac i Emrys Lloyd Hughes, Dreflan, a'r gaseg Sara Dreflan a ddaeth yn fuddugol yn ei dosbarth.

AELWYD NEWYDD. Dymunwn bob hapusrwydd i Mrs Kath Tame, sydd wedi symud o'r Waun yn ôl i fyw i ardal ei chynefin a chroesawn Mrs Ann Jones, o Groesor, i'w chartref newydd yn Sibrwd y Dail.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref i Mrs Jane Roberts, Glasfryn, Stad Bro Waun; Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn; Mrs Nance Hughes, Wernas, Stad Croes y Waun; Oliver Allen, Bryn Golau a Mr Don Roberts, Sŵn y Gwynt.

Derbyniodd Mrs Annie Thomas, Gilfach, Stad Tŷ Hen, lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd; bu Doctor Williams, Tros y Gors yn ysbyty Gobowen yn cael triniaeth a Mr Leslie Jones, Bro Dawel, yn derbyn triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl.

Bu Mrs Nelma Pritchard, Stad Croes y Waun, yn derbyn profion mewn ysbyty yn Lerpwl.

Croeso adref yn ôl i'r Waun ichi i gyd a gobeithiwn y byddwch yn teimlo'n well ac yn cryfhau wedi cael dod adref.

Mrs Mrs Olwen Owen, yn gymorth mawr gyda newyddion yr Eco yn y pentref. Anfonwn ein cofion ati hi a'i merch, Elisabeth, sydd yn derbyn profion a thriniaeth yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

*parhad ar dudalen 20*

**Siop Waunfawr**
(Howard a Debbie)
***Pay Point, Papur Newydd, Cardiau Cymraeg, Cylchgronau, Bwydydd, Nwyddau Tŷ***
Ffôn: **(01286) 650834**
Diolch am gefnogi'r fenter newydd
ar agor **7.30 - 6.30**
**8.00 - 6.00** (Sadwrn)
**9.00 - 12.00** (Sul)
e-bost: siopwaunfawr@live.com

**GERAINT OWEN CARPEDI**
**CARPEDI • VINYLS • TEILS**
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
***A RHAI MEWN STOCK***
**Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd**
**A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd**
**(01286)650552 Mob. 07712779475**

# CHWILOTA

## MANION YM MEDI



Nid yw'r cnwd mwyar duon yn ymddangos mor doreithiog eleni, ond mae'r eirin tagu i weld yn ffynnu, a chafwyd cynhaeaf reit dda o ffrwythau'r ardd yn ystod yr haf. Ychydig o bopeth, felly, a dyna fydd colofn y mis hwn.

**Y Saith Rhyfeddod**

Deuthum ar draws y chwe phennill canlynol wedi eu teipio ar gefn hen fil cigydd o Gaernarfon. Yn anffodus, roedd y pennill cyntaf ar goll. Oes rhywun all ddarganfod y pennill coll – a'r awdur?

Mi glywais ddwedyd fod y petris
Ar fin y traeth yn chwarae tennis,
A'u bod yn gwneud eu peli o dywod
A dyna ddau o'r saith rhyfeddod.

Mi glywais ddwedyd fod y cryman
Mewn cae o haidd yn medi ei hunan,
A'i fod yn torri cefn mewn diwrnod
A dyna dri o'r saith rhyfeddod.

Mi glywais ddweyd fod pysgodyn
Yn cadw ty mewn twmpath eithin,
Ac yno'n byw ers pedwar diwrnod
A dyna bedwar o'r saith rhyfeddod.

Mi glywais ddwedyd fod y mochyn
Ar ben y car yn llwytho rhedyn,
A'i fod yn gwneud ei lwyth yn barod
A dyna bump o'r saith rhyfeddod.

Mi glywais ddwedyd fod y ceiliog
Ar Graig y Llan yn hela sgwarnog,
A'i fod yn dala dwy mewn diwrnod
A dyna chwech o'r saith rhyfeddod.

Mi glywais ddwedyd fod y wennol
Ar Fôr y De yn gosod pedol
A'i morthwyl aur, a'i hengan arian,
A dyna'r saith rhyfeddod allan.

Mae'r penillion yn mynd â ni'n ôl i oes amaethyddol go wahanol. Faint o ffermwyr sy'n 'torri cefn' erbyn heddiw, neu hyd yn oed yn tyfu haidd? Ac er fod llawer o ladd a thorri rhedyn yn dal i ddigwydd, ychydig iawn sy'n ei gasglu ar gar neu drol. Roedd i'r rhedyn swyddogaeth bwysig ers talwm, ac fe'i defnyddid hyd yn oed i gynhyrchu math o sebon.

**Pori mewn Cofrestrau Plwyf**

Tra'n chwilio am wybodaeth arbennig ynglŷn â theulu o'r ardal, deuthum ar draws dau gofnod diddorol o blwyf Llanddeiniolen yn ddiweddar.

Ar y pedwerydd ar bymtheg o Ragfyr 1785 claddwyd Griffith Williams, Clegyr, sef yr ardal rhwng Clwt y Bont a'r Fachwen. Wrth ochr y cofnod ceir y frawddeg hon: 'One of the persons that were drowned in the Abermenai Ferryboat on the 5th of this present month.'

Roedd llawer o ddamweiniau yn digwydd ar y gwahanol fferiau a groesai o Fôn i Arfon yn y blynyddoedd cyn adeiladu Pont y Borth, a chollodd llawer o bobl eu bywydau. Tybed pwy oedd y Griffith Williams hwn? Mae'n gyfnod rhy gynnar iddo fod yn un o'r cannoedd o Fôn a dyrrodd i'r chwarel i chwilio am waith.

Mae'r ail gofnod yn cyfeirio at fedydd a ddigwyddodd yn Eglwys y Plwyf ar ddydd Nadolig 1788, sef Thomas, mab Prichard Thomas ac Elin. Heb un gair ychwanegol ar y cofnod, byddai wedi bod yn anodd darganfod mwy o wybodaeth am y teulu, ond roedd Prichard Thomas yn 'harper'. Hwn felly, oedd Richard Thomas, Llys y Gwynt ger Nant y Garth, yn wneuthurwr telynau yn ogystal â bod yn delynor, ac yn cyd-oesi â Marged uch Ifan.

**Cysylltiadau Teuluol**

O sôn am fudo o Fôn i Arfon, beth am y mudo mawr diweddarach a fu o Arfon i'r America? Daeth hyn i'm sylw yn ystod y ddeufis diwethaf wrth chwilio am hanes teulu a fu'n ffermio'r Glasgoed am hanner can mlynedd. Ac wrth olrhain rhai o aelodau'r teulu, sylweddoli fod cysylltiad â theulu Hen Lôn, Deiniolen, y cafwyd rhywfaint o'u hanes yn yr 'Eco' rai misoedd yn ôl bellach.

Richard Griffith (Evans mewn rhai cofnodion) a'i wraig Elin neu Elinor Thomas oedd yn denantiaid Glasgoed o 1784 hyd 1834. Roedd ganddynt o leiaf un ar ddeg o blant, ac yn sicr mae eu disgynyddion yn drwch o fewn y fro a thu hwnt. Mae cytundeb ar gael, dyddiedig 23 Mai 1834, rhwng Evan (y mab), Elinor (ei chwaer) a Morris Jones, Llanrug (ei frawd yng nghyfraith) yn cytuno i adael y fferm yn dilyn marwolaeth Elin Thomas. Roedd Richard Griffith eisoes wedi marw ers 1810.

Fferm yn eiddo i Stad Coed Helen, Caernarfon oedd y Glasgoed, ond mae'n ymddangos fod Richard ac Elin nid yn unig yn denantiaid ar y fferm hon, ond hefyd yn berchnogion ar Erw Bian ger Bethel. Yno, yn ôl Cyfrifiad 1841, roedd eu mab, Evan Evans yn byw gyda'i wraig Jane; genedigol o blwyf Llandegfan, Môn. Erbyn 1851 roedd y teulu wedi symud i Ros Wian, Penisa'r waun – a dyna'r cysylltiad â theulu Hen Lôn.

Mae'n ddiddorol nodi hefyd fod Richard Griffith yn un o'r ffermwyr a gollodd arian oherwydd i borthmon moch o Dŷ Gwyn, Pontrug, dwyllo nifer o ffermwyr Môn ac Arfon tra'n prynu a gwerthu yn Llundain. Mae peth o'r hanes hwn i'w gael yn "Porthmyn Môn" gan Emlyn Richards.

Tybed oes mwy o ddarllenwyr y golofn â pherthynas â'r teulu hwn? Cofiwch gysylltu.

**Casglu Lluniau**

Cafwyd noson hynod ddiddorol a gwerthfawr yn Ysgol Gynradd Llanrug ym mis Gorffennaf, gyda nifer o'r trigolion wedi troi i mewn i gynnig lluniau o'r fro ar gyfer eu cofnodi. Mae'n rhyfeddol faint o luniau sydd wedi eu cadw mewn droriau neu focsys llychlyd – a'r rheini yn dangos digwyddiadau megis carnifalau, gemau pêl-droed, bandiau ac yn y blaen. Mae'n werth hefyd ymweld â safle Ysgol Gynradd Llanrug i bori drwy'r hen luniau sydd wedi eu cadw'n ddiogel yno yn dangos agweddau o hanes y pentref dros y degawdau diwethaf.

Bydd mwy o nosweithiau tebyg yn cael eu trefnu dros fisoedd y gaeaf.

**Gwobr Beatrice Grenfell**

Faint ohonoch gafodd y cyfle i ymweld â'r 'steddfod yn Wrecsam? Yn ôl yr holl adroddiadau bu'n llwyddiant ym mhob ystyr, a llongyfarchion i'r trefnwyr a thrigolion y fro am sicrhau hynny.

I'r rhai sy'n cystadlu yn rheolaidd neu'n achlysurol yn y Genedlaethol, prin iawn mae'n siŵr yw'r rhai sydd wedi sylwi fod Gwobr Beatrice Grenfell wedi diflannu ers sawl blwyddyn bellach. Roedd y wobr yn cael ei chynnig yn yr Adran Llenyddiaeth am waith ffeithiol yn olrhain hanes – thema gyffredinol, genedlaethol neu agwedd arbennig o hanes bro'r eisteddfod.

Gyda'r diddordeb cynyddol mewn hel achau (ac felly, mewn hanes cymdeithasol gwahanol gyfnodau) ac mewn hanes lleol, mae'n syndod nad yw'r Eisteddfod Genedlaethol yn sicrhau fod testun ffeithiol hanesyddol yn cael ei osod yn rheolaidd ym mhob 'steddfod – boed y testun hwnnw'n genedlaethol neu'n arbenigol i fro'r eisteddfod. Does bosib' fod cronfa Beatrice Grenfell wedi sychu?

Ond dyna fo; pawb a'i fys...

**Clochyddion**

Margaret Roberts, Caernarfon ddaeth â gwybodaeth am glochyddion Betws Garmon i'm sylw. Roedd ei hen, hen, hen daid, Humphrey Hughes, yn glochydd Betws Garmon. Fe'i ganed yn 1768 yn un o fythynnod y Garreg Fawr, a bu wrth y gwaith am 68 o flynyddoedd. Roedd yn byw am y rhan helaeth o'i oes ym Mhentre Bach, nepell o'r eglwys. Yn ogystal â chanu'r gloch a thorri beddau, roedd hefyd yn glerc y plwyf. Mae ei lofnod i'w gweld ar y cofrestrau.


Fe'i dilynwyd yn y swydd gan ei ferch, Appolonia. Roedd yn beth anghyffredin iawn i ferch ddal swydd clochydd, a mwy anghyffredin fyth i ferch olynu ei thad yn y swydd. Claddwyd y ddau gyda'i gilydd yn yr un bedd wrth ddrws yr eglwys.

Roedd Appolonia yn enw gweddol gyffredin yn yr ardal yn ystod y cyfnod hwn, ac mae'n deillio o'r Testament Newydd. Bu'r Apostol Paul yma wrth deithio o Philipi i Thesalonika. Tybed pam y daeth yn enw ar ferched?

Cyd-ddigwyddiad hynod yn hanes teulu Margaret Roberts yw'r ffaith fod Appolonia yn hen, hen nain iddi o un ochr i'r teulu, a'i chwaer, Sian (Jane) yn hen, hen nain iddi o ochr arall y teulu. Priododd hi â Methusalem Williams, mab Humphrey Williams o Fetws Garmon, a buont yn byw yn y Gors, Clwt y Bont.

A dyna gau pen y mwdwl am y mis. Cofiwch anfon gair ynglŷn ag unrhyw destun sy'n ymwneud â hanes bro'r 'Eco'. Anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.


H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580


PLYGU'R ECO. Trwy amryfusedd gadawyd allan rai newyddion y pentref yn rhifyn Gorffennaf ac yn eu plith y diolch i'r pentrefwyr am eu gwaith noson Plygu'r Eco. Dymuna'r trefnydd, Gwyn Hefin Jones, ddiolch yn fawr iawn i'r deunaw o bentrefwyr ddaeth ynghyd i blygu rhifyn Mehefin. Aeth y gwaith ymlaen yn rhwydd gyda diolch arbennig i'r ieuenctid am eu cymorth. Roedd pawb oedd yn bresennol yn y Caban yn eithaf balch o gael gwneud hanes drwy gael plygu y rhifyn cyntaf lliwgar o'r Eco ddaeth o'r Wasg.

GENEDIGAETH. Ar Orffennaf 11eg ganed Llywelyn Pennant, mab i Bryn a Gwenan Jones, Y Griolen, Erw'r Nant, brawd bach i Buddug a Nel ac ŵyr i Hefin a Linda Jones, Pant Mwyn, Llanrug. Mae'r rhieni yn ddiolchgar iawn i bawb am eu caredigrwydd ar yr achlysur hapus hwn i'r teulu.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu y diweddar Athro Gareth Edwards-Jones fu farw yn ei gartref, Fferm Penllyn, ar Awst 14eg yn 48 mlwydd oed. Roedd yn hanu o Ddyffryn Clwyd ond wedi symud i'r ardal yn dilyn gyrfa addysgol ddisglair a'i benodi i'w swydd yn Athro yn Adran Amaethyddiaeth Coleg Prifysgol Bangor. Roedd yn uchel iawn ei barch yn ei faes, yn flaenllaw mewn gwaith ymchwil ac yn arloeswr ym maes Astudiaeth Defnydd Tir lle y gwelir colled amlwg o'i arbenigedd.

Mae ein meddyliau gyda'i briod, Emma, y plant Gethin ac Eleanor a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

*Y GYMDEITHAS.* Bu dau gyfarfod o'r Gymdeithas yn ystod misoedd yr haf. Nos Fawrth, Mehefin 14eg, cadeirydd y noson oedd Gwyn Hefin Jones, Rhandir. Yn dilyn gair o groeso cyflwynodd fyfyrdod seiliedig ar y thema 'Rhyddid' yn ei wahanol agweddau oedd yn arweiniad i destun y noson gan y Parch. Ganon Tegid Roberts, Penisarwaun, sef 'Y Dywysoges Gwenllian'. Drwy gyfrwng cyfarpar cyfrifiadurol, cyflwynodd i ni gefndir hanesyddol hiliogaeth y dywysoges a fu farw yn 1337 a'r ymchwil sy'n parhau i'w chaethiwed am dros hanner can mlynedd yn Abaty Sempringham, Swydd Lincoln. Dros chwe chan mlynedd yn ddiweddarach ffurfiwyd Cymdeithas y Dywysoges Gwenllian i adennill y cof amdani. Erbyn hyn codwyd cofeb iddi ger y safle ac yn ddiweddar enwyd un o fynyddoedd Eryri yn Garnedd Gwenllian.

Diolchwyd yn gynnes iddo am noson ddiddorol iawn gan y cadeirydd.

Nos Iau Mehefin 30ain, llywyddwyd gan Dafydd G. Ellis, Gweledfa. Yn dilyn myfyrdod seiliedig ar ddetholiad o waith Dic Jones croesawodd y siaradwr gwadd, y Parch W.R. Williams, Y Felinheli. Cafwyd sgwrs gelfydd ganddo dan y testun 'Y Ddau Williams' gyda dyfyniadau o un o emynau'r Pêr Ganiedydd yn sail i brofiadau a throeon yr yrfa i'r ddau Williams. Diolchwyd yn gynnes am noson gartrefol a hwyliog gan y Cadeirydd a'r aelodau oll yn dangos eu gwerthfawrogiad. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Medi 15fed yng nghwmni y Parch Ddr Elwyn Richards, Caernarfon. Y cadeirydd fydd Lowri Prys Williams.

*COFION.* Anfonwn ein cofion at un o'n haelodau ffyddlonaf, Maurice Jones, Meillionen na fu yn dda ei iechyd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Da dweud ei fod gartref erbyn hyn wedi treulio cyfnod byr yn Ysbyty Gwynedd.

*OEDFAON MEDI*

4: 5.30 Parch W. R.Williams, Y Felinheli

18: 2.00 Parch John Pritchard, Llanberis

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

25: 5.30 Parch Gwynfor Williams, Caernarfon.

## PARTI PENTREF BRYNREFAIL

**Dydd Sadwrn**
**Medi 3ydd**

Daeth yr amser unwaith eto i'r gymuned ddod at ei gilydd ym Mhentref Brynrefail. Dyma'r drydedd flwyddyn i'r Caban agor ei ddrysau gan roi croeso cynnes i oedolion a phlant y pentref a'r ardal i gael pnawn o hwyl a sbri.

Ymysg llawer o weithgareddau eraill fe fydd yna fabolgampau a thaith gerdded hanesyddol gan ddilyn hen ffotograffau.

Am un o'r gloch bydd Band Gwerin Mooncoin yn perfformio gan gynnwys Twmpath Dawns ac i gloi'r pnawn am bedwar o'r gloch bydd cyfle i fwynhau band lleol Cajuns Denbo.

Un o weithgareddau poblogaidd y blynyddoedd diwethaf oedd Y Bwrdd Mawr Celf.. Eleni bydd cyfle i'r plant wneud hetiau Môr-ladron a chael cyfle i baentio eu hwynebau. Y prif ddigwyddiad fydd y Ras Falwod – digon i gadw pob oedran yn brysur drwy'r prynhawn Sadwrn.

Bydd thema'r ŵyl yn seiliedig ar Fôr-ladron ac felly mae croeso i unrhyw un wisgo i fyny fel yr uchod!

Bydd Caffi Caban yn agored drwy'r dydd gyda bwyd barbeciw ar gael.

Yr ydym yn rhoi gwahoddiad i unrhyw un sydd eisiau cynnal Stondin i godi arian at unrhyw achos lleol i gysylltu a'r trefnwyr. Bydd yr elw o'r parti yn cael ei gadw at drefnu parti'r flwyddyn nesaf.

Os oes unrhyw un gyda diddordeb mewn helpu, cyfrannu syniadau neu roi o'u hamser ddiwrnod y Parti, gallwch gysylltu â: Sally Ellis – 07771 735940 neu Jess Mead Silvestar – 07907 642394

## Safon pedair seren i Archifau Gwynedd

Mae Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd wedi derbyn canmoliaeth uchel mewn arolwg annibynnol diweddar o archifau trwy Gymru a Lloegr.

Am yr ail dro o'r bron, mae Archifau Cyngor Gwynedd wedi sicrhau safon pedair seren – yr uchaf posib – gan yr Archifdy Wladol a fu'n mesur perfformiad ar draws holl feysydd y gwasanaeth.

Mae Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd – sydd wedi ei leoli yn Archifdy Caernarfon a Dolgellau - yn cynnig amrediad o wasanaethau i aelodau'r cyhoedd. Mae'r archifdai yn cynnig cyfleon gwych i unrhyw un sy'n awyddus i hel achau neu ymchwilio i hanes lleol, ac maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu amrywiaeth o hen ddogfennau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol a lleol.

Cafodd Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd sgôr o 79% ar draws ei gwahanol adrannau sef gwasanaeth mynediad; cadwraeth a diogelu; dogfennu casgliadau; staffio a threfn; yr adeilad, diogelwch a'r amgylchedd. Y sgôr gyfartaledd drwy Gymru oedd 61%.

Dywedodd y Cynghorydd Roy Owen, sy'n arwain ar archifau ar Gyngor Gwynedd: 'Mae'r arolwg annibynnol yma yn tanlinellu fod gan Wynedd wasanaethau archifau o'r radd flaenaf - llongyfarchiadau mawr i'r staff sy'n gweithio mor galed i sicrhau gwasanaeth o safon ar gyfer trigolion y sir.


'Mae'r criw gweithgar a phroffesiynol wedi eu lleoli mewn dau Archifdy yng Nghaernarfon a Dolgellau lle mae cyfle i weld dogfennau, lluniau, mapiau a phapurau newydd hanesyddol sy'n ymwneud â'r sir.

'Mae cynnal a chadw ein treftadaeth a sicrhau ei fod yn agored i'r cyhoedd yn hynod bwysig i ddiwylliant a hunaniaeth Gwynedd. Da gweld fod y gwaith gofalus yma yn cael ei gydnabod.'


Gwasanaethau Garddio Gorwel
01286 650761
07773 020424
Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG



Gwesty Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



## YMDDEOLIAD Ms EIRWEN WILLIAMS



Ar ddiwedd tymor yr haf, roedd Ms. Eirwen Williams yn ymddeol ar ôl blynyddoedd maith o wasanaeth cydwybodol iawn ym myd addysg, yn cynnwys yr 20 mlynedd diwethaf yma yn Ysgol Brynrefail yn ei rôl fel Dirprwy Bennaeth. Dros yr holl gyfnod, mae hi wedi profi ei hun i fod yn arweinydd effeithiol iawn tra'n hynod barod i roi cefnogaeth gadarn i'r staff, yn dorfol ac yn unigol, ac i gynnal y disgyblion mewn modd gofalgar a sensitif. Mae hi hefyd wedi bod yn ddolen gyswllt allweddol rhwng yr ysgol a'r llu o fudiadau ac asiantaethau allanol sydd yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion. O ganlyniad, mae hi wedi ennyn parch sawl cenhedlaeth o staff, disgyblion, rhieni a cyfeillion yr ysgol. Rydym fel ysgol yn llongyfarch ac yn diolch yn fawr iawn i Ms. Williams am ei gwasanaeth ffyddlon a graenus ac yn dymuno ymddeoliad hir, iach a hapus dros ben iddi.

EIFION JONES, PENNAETH


## TAITH LENYDDOL YR ADRAN GYMRAEG



Bu criw o flwyddyn 9 ar daith lenyddol a ddechreuodd yn Rhosgadfan gyda chip olwg ar sut y bu bywyd yn amser plentyndod y llenores Kate Roberts. Yr oedd athrawesau'r adran Gymraeg yn llawn gwybodaeth am fywyd caled y cyfnod, yn enwedig bywyd tyddyn. Cerdded rhan o'r Lôn Wen cyn bwrw ymlaen i Dalsarn ac i dŷ a chofeb y Prifardd R. Williams Parry a rhoi cnawd ar y wybodaeth o Gerddi'r Haf a astudiwyd yn y dosbarth yn ystod y gaeaf oer. Roedd amser, wrth basio trwy Garmel, i edrych i lawr ar Dinas Dinlle ac ymgydied yn chwedl Lleu ar ein ffordd i Lynllifon. Unwaith yng Nglynllifon ymgydied yn chwedl Cilmyn Droed Ddu a'i gerflun ar do'r plasty a mwynhau'r datblygiadau diweddaraf trwy gerdded llwybrau'r goedwig gyda'r cerfluniau yn adlewyrchu'r hen chwedlau. Ac wrth gwrs cael amser i bwyso a mesur a gwrthgyferbynnu bywyd un â'i theulu yn gweithio yn y chwarel a bywyd y llall oedd ei piau.

# NEWYDDION YSG

## CAU'R GIÂT AM Y TRO OLAF



Yn ystod gwyliau'r haf eleni, roedd Mr John Parry yn ymddeol o'i swydd fel gofalwr Ysgol Brynrefail ar ôl dros 13 o flynyddoedd o wasanaeth ffyddlon. Rydym fel ysgol yn ddiolchgar iawn iddo am ei waith a'i gyfeillgarwch ac yn dymuno ymddeoliad hir, iach a hapus dros ben iddo.

EIFION JONES, PENNAETH

## Wythnos Trawsgwricilaidd TAITH LENYDDOL YR ADRAN SAESNEG

### DYN A'I AMGYLCHFYD

Fe ddechreuodd ein diwrnod yn y Galeri ac arddangosfa o waith Joe Roberts a'i gerfluniau wedi ei llunio o gopr, coed, haearn a dur a'r disgyblion oll wedi rhyfeddu at ei grefft ac yn llawn brwdfrydedd i drin a thrafod y rhesymau a'r ysbrydoliaeth ysgogodd y cerflunydd. Cerdded oddi yna hyd yr orsaf yng Nghaernarfon a dal y trên i deithio i Feddgelert. Yr oedd digon o esiamplau ar y siwrne sut oedd gwaith dyn yn cilio yn ôl at natur ar ddiwedd ei ddefnydd - hen dryciau haearn yn rhydu yng ngorsaf Dinas, hen fythynnod a'u welydd nawr yn deilchion a gwyfyn yn tyfu drwyddynt. O gyrraedd Beddgelert yr oedd, wrth gwrs, amser i gerdded hyd at y bedd a rhyfeddu yn hanes y ci dewr. Clodfori bod cymaint o waed 'di cael ei ollwng yn y frwydr a'r plasty 'di ei orchuddio mewn coch - wel yn ôl hanes yr athrawon Adran Saesneg beth bynnag!!!



## CYSTADLEUWYR O FABOLGAMPAU'R YSGOL





## parhad CYNGOR LLANDDEINIOLEN

**Cofeb Dinorwig.** Mae'r llecyn wedi ei lanhau a'i dwtio.

**Llwybr beicio.** Y cais blaenorol i estyn y llwybr o waelod Nant y Garth at Ffordd Llanberis. Penderfynwyd anfod eto at Wynedd gan amlygu'r anhawster i foduron wrth oddiweddyd rhes o feiciau ar hyd y ffordd fawr.

**Apêl Eisteddfod yr Urdd.** Cyfeiriwyd at fwriad y Cyngor i gyfrannu £500 yr un i'r tair ardal a phenderfynwyd anfod y sieciau i'r trefnwyr lleol.

**Eisteddfodau Pentref.** Dywedodd Phyllis Ellis bod Eisteddfod Penisa'rwan wedi derbyn tair ymgais a bod y beirniad, Richard Llwyd Jones, wedi eu rhoi yn gyfartal.

**Cynllunio**

*Ceisiadau a dderbyniwyd:*

63–81, Caeau Gleision, Rhiwlas – adeiladu dau dŷ. Penderfynwyd cyfeirio at wrthwynebiad blaenorol y Cyngor oherwydd uchder (3 llawr) y tai a mynegi pryder ynglŷn â'r llwybr sy'n zig-zagio.

Derbyniwyd tri chais arall.

**Llwybrau**

Derbyniwyd ateb Gwynedd i lythyrau blaenorol y Cyngor a phenderfynwyd ymateb fel a ganlyn:

*Llwybr 141:* Cae Goronwy. Nid yw'r llwybr cwrteisi o ddiddordeb i'r Cyngor, mae angen sylw i'r llwybr cyfreithiol gwreiddiol. Bu trafod hirfaith ar hyn flynyddoedd yn ôl.

*Llwybr 50:* Bryn Hyfryd, Fachwen. Gobeithiwn y bydd y gwaith torri mieri wedi ei gwblhau yn fuan, mae'n dymor gwyliau.

*Llwybr 15:* Capel Glasgoed i Nant Efa. Mae clo yn rhwystr ar y llwybr yma.

*Llwybr 11:* Y tu cefn i Gapel Cysegr, Bethel. Y ffens wedi disgyn a mae tua pedair troedfedd a hanner o ddibyn yno.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fawrth y 6ed o Fedi.**

## CWM Y GLO

**Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275**

LLWYDDIANT YN EISTEDDFOD WRECSAM. Llongyfarchiadau i Math Roberts o Bwlch, Cwm y Glo ar ei lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam eleni. Dim ond 12 oed ydy Math ac yn ddisgybl ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Brynrefail Llanrug, ac fe ddaeth i'r brig ar ddwy gystadleuaeth yn yr Eisteddfod.

Ar ddydd Llun cynta'r eisteddfod fe gipiodd Math y drydedd wobr wrth ganu'r delyn deires yng nghystadleuaeth John Weston Thomas i delynau traddodiadol. Mae'r gystadleuaeth hon yn agored i unrhyw oed ac roedd Math yn cystadlu yn erbyn oedolion yn y categori yma.

Daeth llwyddiant arall yn ystod yr wythnos wrth iddo ddod yn drydydd unwaith eto ar yr unawd piano i rai o dan 16oed. Dywedodd y beirniaid fod ganddo raglen hynod ddiddorol a thechneg arbennig am fachgen ,mor ifanc. Llongyfarchiadau mawr iddo! Heb os mae dyfodol disglair o'i flaen.

LLONGYFARCHIADAU i Emma a Gavin, 12 Dôl Afon, ar enedigaeth merch fach, Efa, wyres gyntaf i Alwyn ac Edwina Foulkes.

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Rhian Jones, Bron Eryri ar ôl derbyn triniaeth i'w chlun, hefyd i Mrs Esme Jones, 24 Dôl Afon, ar ôl iddi syrthio a thorri ei ffêr.

LLONGYFARCHIADAU i Math Roberts, Bwlchgrwnog, Bwlch, a ddaeth yn drydydd gyda'r delyn yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, hefyd i Miss Eleri Jones, athrawes yn yr ysgol, sydd yn aelod o Gôr yr Ynys, a gipiodd y wobr gyntaf.

ADREF O SELAND NEWYDD. Pleser oedd cael croesawu Elfed Hughes (Alexandra gynt) adref ar wyliau. Pob tro y daw Elfed adref bydd yn galw yn Cwm i gael hanes yr hen drigolion a phleser o'r mwyaf yw gwrando arno yntau yn hel hen atgofion. Hyderwn ei fod wedi mwynhau gweddill ei wyliau gyda'i nith, Stela a'r teulu yn Llanrug.


**Cist Gymunedol**

**Awydd £1,500 tuag at eich prosiect chwaraeon cymunedol?**

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:**
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianeleridobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057

www.gwynedd.gov.uk



**CDH**

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol

2 Stryd y Plas, Caernarfon
**(01286) 672727**

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor
**(01248) 674460**

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol

Awdurdodir a rheolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol



**Blodau Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: **870605**

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON YW BLODAU



**Darlith Flynyddol Capel Rehoboth**

**"I RYDDID Y'CH GALWYD"**

**Gan Ffred Ffransis**

**Yng Nghapel Rehoboth Nant Peris** 7pm.

**Nos Wener 9fed. o Fedi**

MYNEDIAD A LLUNIAETH AM DDIM

**Manylion-07588256783**


## UN FUNUD FACH

Ganol mis Awst cyhoeddwyd argraffiad diweddaraf y *Concise Oxford Dictionary* oedd yn cynnwys 400 o eiriau newydd. Roedd y term *silly season* ynddo ers blynyddoedd, yn cyfeirio at fisoedd Awst a Medi pan oedd y Wasg, yn draddodiadol, yn adrodd storïau dibwys am nad oedd yn aml fawr o bwys i sôn amdano.

Doedd yr haf hwn yn ddim tebyg i'r *silly season* traddodiadol, a llanwyd colofnau'r papurau newydd ac oriau'r bwletinau radio a theledu ag adroddiadau am ddigwyddiadau pwysig ac arwyddocaol. Mae argyfwng gwledydd Dwyrain Affrica a'r dioddefaint a ddaeth oherwydd y newyn dychrynllyd wedi bod yn amlwg trwy'r haf. Yna gwelwyd y terfysgoedd annisgwyl yn ninasoedd Lloegr, a daeth llosgi adeiladau ac ysbeilio eiddo a hyd yn oed lofruddiaethau i'w canlyn. Ac yn fwy diweddar, trodd y sylw at y brwydro a'r lladd yn Libya a'r ymgyrchu gwaedlyd i wared â'r teyrn, Muammar Gaddafi.

Daeth terfysgoedd Lloegr i ben, diolch am hynny, ond mae'r problemau a roes fod iddynt eto i'w wynebu a'u datrys. Mae'r newyn yn Affrica a'r chwyldro gwleidyddol yn Libya hefyd yn parhau, a bydd angen mwy nag ychydig wythnosau'r *silly season* i ddod â rhyw lun o ddatrysiad i'r rhannau hynny o'r byd.

Wrth i'r haf ddirwyn i ben ac i dymor newydd ymagor o'n blaenau mewn byd a betws, gweddïwn dros y bobl a ddioddefodd mor enbyd oherwydd yr holl helyntion hyn. Gweddïwn am gymorth i'r anghenus, bwyd i'r newynog, gobaith i'r galarus, cysur i'r ofnus, cyfiawnder i'r gorthrymedig a maddeuant i'r euog. Gweddïwn y bydd Efengyl Iesu Grist yn ffynhonnell gobaith a chariad a chymod i fyd dolurus a rhwygiedig. Gweddiwn y bydd yr Arglwydd Dduw yn nerthu pob Cristion sy'n ceisio tystio mewn gair a gweithred i'w gariad yn wyneb yr anobaith a'r boen sy'n llethu pobl yng nghanol pob math o gythrwfl heddiw. Goleuni Duw yw'r Efengyl yng nghanol tywyllwch byd, ac yn y mannau peryclaf a mwyaf arswydus gall yr Efengyl ddwyn gobaith newydd i bobl. Ac er mwyn Crist, a thrwy ei ras a'i nerth, ceisiwn ninnau - er ein gwendid a'n diymadferthedd - wneud popeth o fewn ein gallu i dystio i'r Efengyl honno ac i weithredu cariad Duw.

JOHN PRITCHARD

# O'R CYNGHORAU

## CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 28ain o Fehefin 2011 gwnaed y penderfyniadau canlynol:

• Cynnig y swydd wag yn Llanrug i Mr Dylan Jones.

• Talu am osod dau slab concrid i osod biniau newydd yn y ddau gae chwarae.

• Cael pris am glirio pen draw Pwllmoelyn yn barhaol a gosod cerrig mân yno i sugno'r dŵr.

• Dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

• Caban storio – Cae chwarae Ysgol Brynrefail, Llanrug.

• Estyniad a newidiadau: Gerallt, Ceunant.

• Addasu ac ymestyn cyn gapel yn dŷ annedd gyda modurdy – Tŷ Hermon, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

• Estyniadau cefn – 2 Rhos Rug, Llanrug.

• Gofyn i Celtiaid Llanrug anfon cais am grant wedi i'r Clwb gael ei sefydlu.

• Ystyried newidiadau i brisiau'r fynwent yn y cyfarfod nesaf ar ôl astudio adroddiad yn dangos prisiau mynwentydd lleol eraill.

• Gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried y posibilrwydd i'r lamp ger Dolwen bwyntio i lawr y ffordd yn hytrach nag i unman.

• Gofyn i'r Heddlu ddelio gyda'r broblem o ddau gar yn parcio ar y ffordd rhwng Hafan Elan ac Ysgol Brynrefail.

• Mynegi pryder wrth Gyngor Gwynedd am y gyrru peryglus sydd yn digwydd ar hyd y ffordd o'r Becws i Ceunant gan fod y sefyllfa yn waeth yn dilyn lledu'r ffordd yn ddiweddar.

• Holi Cyngor Gwynedd ynglŷn â chael safle bws newydd yn Nant y Glyn.

• Cefnogi Cymuned Llanddeiniolen yn ei gais i gael llwybr diogel i'r ysgol i blant Brynrefail sydd yn mynychu Ysgol Cwm y Glo.

• Gofyn i'r giang cymunedol glirio'r hen ffordd rhwng Cwm y Glo a Brynrefail.

* * *

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg o Orffennaf 2011 penderfynwyd:

• Rhoi ystyriaeth bellach i bwyntiau a wnaed gan Mr Aneuryn Parry, Swyddog Gorfodaeth Cyngor Gwynedd ynglŷn â gwarchod coed yn yr ardal.

• Codi'r prisiau'r fynwent fel a ganlyn:

£140 – Bedd newydd oddi fewn i'r gymuned.
£280 – Bedd newydd tu allan i'r gymuned.
£100 – Ail agor bedd oddi fewn i'r gymuned.
£200 – Ail agor bedd tu allan i'r gymuned.
£80 – Claddu Llwch

• Trefnu cyfarfod gyda'r Heddlu i drafod y lamp ger Dolwen, Ffordd yr Orsaf.

• Anfon sylwadau a gafwyd ar ôl trafod y cynllun arfaethedig i osod llinellau dwbl melyn ar Ffordd yr Orsaf gyda'r trigolion i Gyngor Gwynedd. Roeddynt yn cytuno gyda'r cynllun ond am un newid, sef i ymestyn y llinellau i gynnwys tu allan i Tŷ Fry.

* * *

Mewn cyfarfod ar y 16eg o Awst 2011, penderfynwyd:

• Ysgrifennu at Cyngor Gwynedd i'w hysbysu am y gor-yrru sy'n digwydd ar Ffordd Ceunant a Ffordd yr Orsaf.

• Ysgrifennu at yrrwr beic modur lleol sy'n gyrru ar gyflymder uchel drwy'r pentref yn dweud fod sawl cwyn wedi ei dderbyn amdano ac y byddem yn cysylltu gyda'r Heddlu os yw'r gor-yrru yn parhau.

• Ail wneud hysbysfwrdd mynwent Llanrug er mwyn cynnwys mwy o'r rheolau arno.

• Dewis Cynghorydd newydd i'r sedd wag yn ward Llanrug yn y cyfarfod nesaf.

• Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt docio coed ar ochr y ffordd ym Mhont Rug a Crawiau.

• Cysylltu ar frys gyda'r contractwr torri gwair ynglŷn â'r cwynion a gafwyd am safon y gwaith yn y fynwent.

• Gweithredu prisiau newydd y fynwent o'r 1af o Fedi.

• Ceisio trefnu cyfarfod gyda swyddog o Gyngor Gwynedd a'r Heddlu ger Dolwen, Ffordd yr Orsaf cyn diwedd mis Awst.

• Anfon copi o ebost a dderbyniwyd oddi wrth un o famau ifanc Nant y Glyn, yn cwyno am y gwydrau sydd yn cael eu torri ar hyd y cae a'r cyfarpar chwarae, i'r Heddlu a gofyn iddynt fynychu'r cyfarfod nesaf i drafod y mater. Hefyd, gofyn iddynt gadw llygaid manwl ar y cae am weddill y gwyliau haf ac i ddarparu gwybodaeth i'r Cyngor am sawl awr yr oeddynt wedi ei dreulio yn Llanrug a Chwm y Glo yn ddiweddar.

• Hysbysu'r Swyddog Llwybrau fod gwaith yn cael ei wneud ger Carreg y Frân, Cwm y Glo a oedd yn ymddangos i fynd ar draws y llwybr cyhoeddus (llwybr 22) a gofyn iddo ymchwilio'r safle.

• Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

• Dymchwel yr estyniad presennol a chodi estyniadau pellach ar yr annedd a chodi adeilad allanol ar gyfer storio a gweithgareddau hobi: Cae Rhydau, Pontrug.

• Gosod arwydd wyneb di-oleuedig ar flaen adeilad – Regent House, Y Sgwâr, Llanrug.

• Gwrthwynebu cais i osod 7 caban pren gwyliau ychwanegol ynghyd â thirlunio a gwelliannau amgylcheddol ym Mharc Gwyliau Bryn Teg, Llanrug ar sail gor-ddatblygu safle, effaith trafnidiaeth ar yr ardal cyfagos a gwrthwynebu torri'r coed.

• Rhoi grant o £725 i Gylch Meithrin Llanrug.

• Gofyn i Emlyn Thomas ddelio gyda diffygion ar giatiau'r fynwent.

• Cadw un o'r biniau yn y fynwent ar gyfer poteli plastig er mwyn eu hail-gylchu.

• Gofyn i'r Heddlu drefnu cael y tîm cymunedol i lanhau graffiti oddi wrth safle bysiau ger Glyntwrog.

• Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r cais i gael safle bysiau newydd ger mynedfa Nant y Glyn.

• Gofyn am gymorth y Cynghorydd Charles Jones i ddelio gyda'r parcio ar y ffordd cyn Ysgol Brynrefail sy'n ei gwneud hi'n anodd i yrwyr basio'r safle ac i gerddwyr gan fod y ceir hefyd yn parcio ar y palmant.

## CYNGOR LLANDDEINIOLEN

**Mudiadau gwirfoddol** – Rhaid i geisiadau am gymorth ariannol fod yn llaw'r Clerc cyn diwedd Medi 2011. Ni ystyrir ceisiadau a dderbynnir ar ôl hynny.

**Crynodeb o gofnodion Gorffennaf 2011**

**Gweddi.** Dechreuwyd y cyfarfod trwy weddi.

**Meinciau.** Mae meinciau Pen y Golwg a Dinorwig wedi eu gosod a mainc Penisa'rwaun wedi ei hatgyweirio a'i hail osod.

**Llwybr Trem Eilian i ysgol Cwm y Glo.** Derbyniwyd cefnogaeth Cyngor Llanberis ond nid oedd ateb oddi wrth yr ysgol na Chyngor Llanrug.

**Cae chwarae Penisa'rwaun.** Ateb Gwynedd eu bod yn ymholi prisiau am gyfarpar ychwanegol ond ni fydd ganddynt gyllid i'w darparu.

**Safle ail gylchu Rhiwlas.** Ateb Gwynedd y gosodir arwyddion amlycach yno. Penderfynwyd amlygu hyn yn Llais Ogwen. Hefyd dweud wrth Steffan Jones, Gwynedd, bod Warden Gorfodaeth Stryd, Gwynedd, yn gwybod am amryw o rai sydd wedi gadael gwastraff yno – pam na ddirwyir y rhain fel a wnaed mewn llefydd eraill fel Bethel?


NEUADD AR GAEL I'W LOGI YN LLANRUG

YN DAL HYD AT 50 YN EISTEDD

CYFLEUS I GYNNAL CYNHADLEDDAU BYCHAIN, GWEITHDAI, SESIYNAU HYFFORDDIANT, YMARFER GRWPIAU CERDD LLEOL a.y.b.

Toiledau (yn cynnwys rhai Anabl) ar gael.

Cegin fach a digon o lefydd parcio oddi ar y ffordd

Nid yw'n bosib i'r cyhoedd weld i fewn. Addas ar gyfer cadeiriau olwyn

Gellir gwneud trefniadau i fusnes lleol ddarparu bwffe os oes angen. Darparir fwy o wybodaeth ar gais.


Ffoniwch- 07909678784 neu 07747678291

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk




GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

# GOL BRYNREFAIL


## CYFLWYNO COPI O HANSARD



Bu'r Aelod Seneddol, Yr Anrhydeddus Hywel Williams, ym Mrynrefail ar ddiwrnod olaf tymor yr haf i gyflwyno pedwar copi o Hansard i lyfrgell yr Ysgol. Yng ngŵydd y Pennaeth, Mr Eifion Jones, derbyniwyd y rhodd ar ran yr Ysgol gan Gwenno Gibbard, Prif Ddisgybl a Gruffydd John, Dirprwy Prif ddisgybl.

## DARLLEDIAD GWYDDONOL





Yn ystod mis Mehefin fe gawsom ddau westai o nod yn ymweld ag Ysgol Brynrefail er mwyn recordio rhaglen radio fydd yn cael ei darlledu ym mis Medi.

Ar y dde y mae Dr Rheinallt Parri, yn wreiddiol o Ddeiniolen, ac yn gyn disgybl yn Ysgol Brynrefail. Y mae Dr Parri yn gweithio yn Adran Fferylleg, Prifysgol Aston, Birmingham. Yno y mae'n gwneud gwaith ymchwil ar yr ymennydd a chemegau sy'n cael eu treialu ar gyfer eu defnydd i drin y clefyd Alzheimer.

I'r chwith, gwelir Dr Dewi Lewis, yntau hefyd yn gyn disgybl ym Mrynrefail, sydd yn awr yn Gemegydd Cyfrifiadurol yng Ngholeg Prifysgol Llundain. Gwaith Dr Lewis yw ymchwilio i effaith $CO_2$ ar yr amgylchfyd trwy ddefnyddio $CO_2$ solet i arbrofi a yw yn ddrwg neu'n dda

A'r un gyda'r wên fwyaf ar y diwrnod? Wel Mr Dilwyn Roberts fu'n addysgu'r ddau.

## CYSTADLEUAETHMATHEMATEG Y GYMDEITHAS WYDDONOL GENEDLAETHOL

William Lamb a Rhydian Price (y ddau ar y chwith), o flwyddyn 8, yn derbyn eu gwobrau gan Dr Gwyn Jones ar faes Eisteddfod yr Urdd wedi eu llwyddiant yn y gystadleuaeth mathemateg genedlaethol eleni.

Sefydlwyd y gystadleuaeth hon ar gyfer disgyblion uwchradd yn 1983, dan nawdd y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i ddisgyblion blwyddyn 8 a bydd dros fil yn cystadlu yn flynyddol. Mae pob ymgeisydd yn derbyn tystysgrif a dyfernir gwobrau i'r rhai sydd wedi cyrraedd safon uchel iawn.

Gyda chydweithrediad yr Urdd cyflwynir gwobrau yn flynyddol ar faes yr Eisteddfod. Y mae'r teulu oll ym Mrynrefail yn ymfalchïo yn ei llwyddiant ond yn enwedig Miss Sioned P. Jones, sydd yn addysgu'r ddau, a'i chyd fathemategwyr yn yr Adran Mathemateg.



## CYSTADLEUWYR O FABOLGAMPAU'R YSGOL





# DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)




TRIP YSGOL SUL. Er mwyn diolch i'r plant am eu gwaith caled drwy'r flwyddyn gofynnwyd iddynt hwy ddewis ble yr hoffent fynd ar eu trip diwedd tymor. Penderfynwyd mynd i wneud gweithgareddau amrywiol ym Mhlas Menai am y diwrnod.

Cafodd y plant gyfle i ganŵio, cwrs rhaffau uchel a gemau yn y pwll nofio. Mwynhaodd pawb y diwrnod yn fawr ac, yn ôl y plant, hwn oedd y trip ysgol Sul gorau erioed.

*llun*

DYMUNA Glyn a Rhianwen ddatgan eu diolch i deulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn, cardiau ac arian a dderbyniwyd ganddynt ar ôl colli mam a mam yng nghyfraith annwyl iawn; hefyd nain, hen nain a hen, hen nain, Mary Olwen Jones, 3 Bro Deiniol, gynt o Lleiniau. Diolch yn fawr iawn.

PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD YR URDD 2012. Hoffai Pwyllgor Apêl Deiniolen a Dinorwig ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth 'Pêl Bonws' dros y flwyddyn ddiwethaf. Bydd y bêl olaf yn cael ei thynnu ddiwedd Awst. Llongyfarchiadau i bawb a enillodd a diolch i Hilda am weinyddu'r cynllun.

LLONGYFARCHIADAU i bawb o'r pentref yn dilyn canlyniadau yr arholiadau coleg ac ysgol diweddar. Dymuniadau gorau i'r rhai a fydd yn dechrau mewn colegau newydd, mewn swydd neu'n dychwelyd i astudio yn yr ysgolion.

YSGOL SUL. Mi fydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau yng Nghapel Ebeneser ar Fedi'r 4ydd am 10.15. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am fwy o fanylion cysylltwch â Nia Gruffudd neu Eirlys Hughes.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys â Mrs Marian Williams, Ffordd Deiniol a'r teulu yn dilyn colli mam a nain yn ddiweddar.

CLEDWYN PARRY. Dymuna Joan a'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli un mor annwyl.

Diolch am yr holl gardiau, y galwadau ffôn a phob ymweliad. Mae'r cyfraniadau hael a dderbyniwyd er cof am Cled yn mynd i Hosbis Hafan Menai a Chapel Ebeneser.

Diolch yn arbennig i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth teimladwy ac i Gwyn Parri am dalu'r deyrnged ac hefyd i Annette Bryn Parri am chwarae'r organ. Hefyd diolch i Gwynfor o E.W. Pritchard Llanberis am ei drefniadau trylwyr.

Diolch i'r staff ar ward Alaw am eu gofal caredig o Cled yn ystod yr amser y bu yno. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd yn ystod amser mor anodd.

CLWB PÊL DROED IEUENCTID. Cafwyd noson hwyliog yn ystod yr haf yng nghlwb Rygbi Bangor i wobrwyo'r plant a chwaraeodd i amrywiol dimau'r pentref y tymor diwethaf.

Diolch i bawb a gefnogodd y noson ac am y gfnogaeth a gafwyd yn ystod y tymor.

Yn anffodus, nid yw'n edrych yn debygol y bydd tîm o dan 7 eto eleni yn y pentref. Gofynnir am unrhyw berson a fydd gyda diddordeb i helpu'r plant i roi eu enwau ymlaen cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau y bydd y plant yn cael cyfle i fwynhau chwarae am y tymor i ddod.

Diolchir i Dewi a Lyndsey am eu gwaith fel swyddogion dros y blynyddoedd diweddar a dymunir yn dda i'r swyddogion newydd gyda'u gwaith. Diolchir hefyd i Nia, sydd yn parhau gyda'r gwaith o fod yn Drysorydd am y tymor byr.

Gwerthfawrogir unrhyw gefnogaeth a geir a chroesawir unrhyw un fyddai'n dymuno ymuno â'r pwyllgor i hwyluso'r gwaith.



BWRDD YR IAITH GYMRAEG - WELSH LANGUAGE BOARD
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Gwesty Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



# Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r cylch

i'w chynnal yn
Festri Capel Ebeneser, Deiniolen
am
1.00 a 6.00 yr hwyr, Dydd Sadwrn, Hydref 29ain, 2011




**BEIRNIAID**

**Cerdd a Cherdd Dant:**
Ilid Ann Jones, Bangor

**Llefaru:**
Sian Teifi, Llanfaglan

**Llenyddiaeth:**
Y Prifardd Selwyn Griffiths
Bydd angen ail drefnu yn dilyn ei farwolaeth annisgwyl yn diweddar

**Gwau, Gwnïo a Choginio:**
Anita Long, Brynrefail

**Arlunio, Gwaith Llaw a Ffotograffiaeth:**
Gwilym Williams, Deiniolen

**Dawnsio Disgo:**
Kelly Jones, Bethel

**CYFEILYDD Y PRYNHAWN:**
Eleri Bean, Clwt y Bont

**CYFEILYDD NOS:**

## *PARHAD DEINIOLEN*

GŴYL DEINIOLEN A'R CYLCH. Ar 4ydd Ebrill, cafwyd noson i ddewis Brenhines a disgo i'r plant, gyda bwyd a diod ar gael hefyd. Brenhines y flwyddyn hon oedd Leanne Marie Wiliams, merch Chris ac Anne Marie. Llongyfarchiadau iddi hi a hefyd i'r neiniau, Edwina Thomas a Margaret Williams, a Taid Dic Thomas, i gyd yn byw ym Mhentre Helen.

Cafodd y Frenhines ei dewis allan o het gan y Cynghorydd Len Jones, efo Kelly Allen, brenhines y flwyddyn ddiwethaf hefyd yn bresennol. Mae diolchiadau'r noson yn mynd i Manon Evans, cogyddes brysur iawn ar y noson; Sioned Evans, Myfi Jones ac i Eurwyn Jones am fod yn gyfrifol am y disgo. Diolch i Hilda a Lyndsey Vaughan am weithio mor galed ar wisg y Frenhines.

Ar 29 Ebrill cafwyd noson o hwyl yn y 'Bull', noson o rasys ceffylau ar y sgrin fawr. Hogia pwysicaf y noson oedd Spike a Hughsie, y ddau fwci. Fe godwyd dros £300. Diolch i bawb a gefnogodd y noson a diolch i Dafydd Twins am roi ystafell i ni gael mwynhau a chodi arian.

Y flwyddyn yma, y noson fawr i gael pobl y cylch at ei gilydd oedd Bryn Fôn a'r Band yng ngwesty Meifod, Bontnewydd ar 17 Mehefin. Ieuan Williams oedd yn gyfrifol am y cludiant. Bu gwerthiant da iawn ar y ticedi gyda Spike a Dewi Rees, unwaith eto y ddau brif werthwyr. Cawsom Raffl Fawr efo Emlyn Cole unwaith eto yn rhoi y brif wobr o deledu Hitachi 42". Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at y raffl.

Y llynedd roeddwn yn meddwl fod y Majorettes yn wych ac eto y flwyddyn hon cawsom y fraint o'u gweld. Diolch o galon i Sioned Lewis, Sophie Louise, Mared a Sasha am roi eu hamser i ddysgu'r plant i ddawnsio.

Mae'n diolchiadau hefyd yn mynd i griw y Seindorf am fod mor barod i helpu'r ŵyl.

Mae'n bwysig rhoi gair i mewn am Cartrefi Cymunedol Gwynedd, sydd wedi rhoi £40 i'r Ŵyl a hefyd i Bingo Tŷ Elidir, sydd eto wedi rhoi £100, fel llynedd.

Ychydig yn wahanol y tro hwn fe anfonwyd llythyrau rownd y cylch i fusnesau lleol yn gofyn a fyddent mor garedig â rhoi hysbyseb yn ein rhaglen, £25 am hanner tudalen a £50 am dudalen gyfan. Cafodd yr arian hwn ei ddefnyddio i dalu am y rhaglenni a ddosbarthwyd rownd y pentrefi cyfagos. Urien Huws, 8 Rhes Faenol, oedd yn gyfrifol am osod a phlygu'r rhaglenni a diolch iddo am waith ardderchog.

Y busnesau a gyfrannodd oedd Ieuan Williams (Bysiau), Euryn Roberts (tyllu a chlirio), Cychod Padarn, E.W. &W. Roberts (adeiladwyr), Carwyn Thomas (gwaith to), Tracey Thomas (gwarchod plant), Rhian Worth (gwarchod plant), DMM (Ffatri peirianneg), Daniel Wood (sgaffaldiwr), Gareth Roberts (ffotograffydd), T.B. Jones a'i Dad (adeiladwyr), Becws Cwm, Y Tarw, Dewi Gibson (trwsio ceir), Jason Jones (plastrwr), David Parry (gofal cartref), Gwilym Williams (gwaith llechi), Hefin Jones (siop a tacsis), Gymdeithas Golff a Premier Stores (siop), Emlyn Cole Jones (gwerthwr teledu) a Graham Hughes (JSD).

Mae'n rhaid rhoi gair bach o ddiolch i aelodau y pwyllgor, yn enwedig i Manon Evans: hi sydd yn gyfrifol am osod a phrintio llythyrau allan i mi oherwydd dwi o hyd yn yr oes papur a biro.

Enwau gweddill y pwyllgor sydd wedi gweithio yn galed iawn yw Carwyn Thomas (Spike), Arwel Hughes, Dewi Rees, Eurwyn Jones, Tony Maxwell, Glyn Gruffudd, Sioned Lewis, Sioned Evans, Manon Evans, Lyndsey Vaughan, Myfi Jones, Len Jones ac Elfed Williams.

Dwi yn saff y bydda i wedi gadael enw rhywun allan ond, fel y flwyddyn diwethaf, nid wyf wedi gwneud hyn yn fwriadol.

Bydd gair o ddiolch yn mynd allan i unigolion sydd wedi helpu'r ŵyl. Yr unig beth sydd ar ôl i'w ddweud ydi gobeithio bod pawb wedi mwynhau'r ŵyl.

ELFED WYN WILLIAMS
YSGRIFENNYDD

DYMUNA Marian ac Ifan, 12 Ffordd Deiniol, ddiolch o galon am yr holl gardiau, arian a galwadau ffôn a dderbyniwyd er cof am ei mam annwyl, Jane Evelyn Parry o Borthaethwy. Yr elw yn mynd at Ambiwlans Awyr a Plas Mona.

MERCHED Y WAWR. Bydd cyfarfod cyntaf y tymor yn cael ei gynnal yn Tŷ Elidir ar nos Lun, 5 Medi, am 7 o'r gloch. Bydd croeso cynnes i unrhyw un sydd yn dymuno ymaelodi â'r gangen. Mae rhaglen amrywiol wedi cael ei threfnu a rhywbeth at ddant pawb. Dowch yn llu a dowch â'ch ffrindiau hefo chi.

### Y Delyn

(er cof am E.H. Jones,
Fferm Cae Canol, Fachwen)

Cynhaeaf gwair yn arogldarthu'r fro
mewn gosber gatholig ar hwyrnos waith,
ac wrth gribinio drwy weirgloddiau'r co
daw i'r ffroen yn gryf, sawr yr adladd llaith.
Hwyl cymortha… hen gymdogaeth dda,
su y gwair, rhenc i'r rhaff… codi ar gefn
beichiau crimp-sawrus i'w cario i'r das,
a'r had yn cosi'n y chwys – dyna'r drefn.
Cyn cau'r adwy, roedd un gorchwyl i'w wneud –
'Tyn y delyn drwy'r cae unwaith 'r hen lanc
mae pob blewyn o werth…' clywaf o'n dweud.
Stryffâg fyddai'i thynnu o fanc i fanc
ond – rhywfodd, o'i thannau doi nodau drud
o gân y ddaear – sy'n aros o hyd.

*Hen gribin haearn a lusgid ar hyd y maes i gribinio'r gweddillion ar ddiwedd y gwaith yw delyn yn y cyd destun yma.*

NORMAN CLOSS





**• Priodasau • Dathliadau**
**• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau**
**• Pwyllgorau • Bwydlen Bar**

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

*wrth droed yr Wyddfa*

Ffôn: **08444 119 004**


### Ymddiheuriad

Fe ymddangosodd llun o Sharon Williams,Ynys Iago ac Alan Parry, Pentre Helen yn y rhifyn diwethaf heb ysgrifen oddi tano. Gobeithiwn yn wir fod Sharon wedi setlo yn ei gwaith newydd gyda Radio Ysbyty Gwynedd erbyn hyn. Mae Alan wedi bod yn y gwaith ers rhai blynyddoedd bellach. Pob dymuniad da i chi.

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

GOFALWYR. Cynhelir bore coffi gan fudiad Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr yng Ngwesty'r Padarn Lake, Llanberis rhwng 10.30-12.30 fore Iau, 22 Fedi 2011. Mae croeso i ofalwyr yr ardal ymuno â ni am baned a gobeithiwn gael cyfarfod â gofalwyr newydd. Bydd stondin gwybodaeth budd-daliadau a bwrdd gwerthu cacennau. Croeso i chi i gyd.

YSGOL DOLBADARN

*MABOLGAMPAU.* Buom yn ffodus i gael tywydd sych i'n mabolgampau ar 11 Gorffennaf. Yn y llun mae capteiniaid Padarn yn dal y cwpan. Charlie Panton gafodd y mwyaf o farciau ymhlith y bechgyn efo pedwar yn gydradd ail, sef Oliver White, Iwan Price, Aaron White a Dafydd John Griffith.

Elin Thomas oedd enillydd tlws y merched ac eto roedd pedair yn gydradd ail, sef Megan Hughes Jones, Alaw Jones, Molly Ellis a Cora de Silva.

Diana Roberts enillodd ras y mamau a Martin Chester ras y tadau.

*GALA NOFIO.* Cafwyd Gala Nofio lwyddiannus iawn dydd Mercher, 6 Gorffennaf. Padarn oedd y tŷ buddugol eleni.

Enillwyd medal aur y bechyn gan Oliver White, efo'i frawd Aaron White a Ben Davies yn gydradd ail. Mari Jones oedd y ferch uchaf ei marciau a Zoe Wood yn ail.

*CYFEIRIANNU.* Enillodd saith o ddisgyblion yr ysgol eu lle yn rownd derfynol pencampwriaeth cyfeiriannu Gwynedd. Da iawn chi.

*TAITH CAERDYDD.* Bu'r disgyblion hynaf ar daith i Gaerdydd ddechrau Gorffennaf. Cawsant dridiau prysur dros ben. Dyma ddetholiad o ddyddiadur Aled Pritchard

Ar y pedwerydd o Orffennaf aeth blwyddyn 5 a 6 i Gaerdydd. Dyma wnes i fwynhau fwyaf ar y diwrnod cyntaf, sef dydd Llun, mi aethom i nofio yn y ganolfan hamdden yno. Cafodd pawb hwyl bod yn rhydd ar ôl bod ar y daith hir yno ar y bws.

Roedd y pwll yn un enfawr gyda *jacuzzi* a phump llithren ddŵr ond roeddwn i yn hoffi y lithren las orau oherwydd pan roeddech chi'n cyrraedd y gwaelod roedd fel plwg a chithau'n mynd rownd a rownd tan yn y diwedd roeddech chi'n plymio i bwll dyfn.

Roeddwn yn disgyn i lawr i fewn i'r pwll,ac roedd yn gallu bod yn boenus!

Roeddwn wedi mwynhau y trip i gyd i Gaerdydd ond fy hoff ddarn oedd y pwll nofio a mi gofiaf y profiad yno am flynyddoedd i ddod.

*FFARWELIO Â BLWYDDYN 6.* Cafwyd gwasanaeth arbennig gan ddisgyblion Blwyddyn 6 ar fore olaf y tymor. Buont yn dwyn i gof lawer o'u hatgofion am eu hamser yn yr ysgol. Pob dymuniad da i chi yn yr ysgol uwchradd. Cofiwch alw heibio.

*NEWYDDION STAFF.* Braf oedd derbyn y newydd am enedigaeth Meilir Tudur i Mrs Manon Davies. Anfonwn ein cofion gorau at Mr a Mrs Davies.

Dymuniadau gorau i Ms Wenna (Wenna Jones) ar ei phenodiad i swydd yn Ysgol Plas Pawb yn Ysgol Maesincla. Cyflwynwyd llun iddi yn y gwasnaeth diwedd tymor i ddiolch iddi am ei gwasanaeth i'r ysgol a'i gofal arbennig o'r plant lleiaf dros y blynyddoedd.

Dymuniadau gorau hefyd i Mr Gareth Jones fu'n athro llanw efo ni ers mis Rhagfyr. Dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd yn Ysgol Porthaethwy ym Medi.



*Cystadleuwyr yn yr Ŵyl Gyfeiriannu.*



*Capteiniaid Padarn yn y Gala Nofio*



*Mr Wynne yn cyflwyno y cwpan i gapteiniaid Padarn ar derfyn y Mabolgampau.*




*Disgyblion Dolbadarn y tu allan i Stadiwm y Mileniwm.*



*Ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 6..*



*Enillwyr y medalau nofio.*

# *Parhad* LLANBERIS

*FFARWELIO Â'R PENNAETH.* Yn y gwasanaeth diwedd tymor cafwyd cyfle i ffarwelio â Mr Wynne a hel atgofion am ei gyfnod yn yr ysgol. Yr oedd pob dosbarth wedi paratoi eu cyfraniad i'r cyfarfod anrhegu. Cyflwynwyd iddo lun 3D nodedig o Gastell Dolbadarn gan y gofaint Ann Catrin, tocynnau canolfan arddio ac arian i brynu tair iâr - Dol, Bad ac Ann!!

Dyma'r englyn a ysgrifenwyd ar gyfer Mr Wynne gan y Prifardd Ieuan Wyn. Naddwyd yr englyn ar lechen ac fe gyflwynodd Dr Gwyn Williams, Cadeirydd Y Corff, yr englyn iddo ar ran staff, llywodraethwyr a rhieni yr ysgol.

Diolch yn fawr i Mr Wynne am ei wasanaeth a'i ymroddiad i'r ysgol a'r gymuned am y deuddeg mlynedd ddiwethaf. Bydd colled fawr ar ei ôl ym mis Medi. Pob dymuniad da iddo yn ei swydd newydd efo UCAC.

Prifathro, Cymro i'r carn, – arweinydd
Â chyfraniad cadarn;
Hybu Iaith, a meithrin barn
A hyder plant Dolbadarn.

*GAIR O DDIOLCH*
Wrth ffarwelio ag Ysgol Dolbadarn hoffwn ddiolch o galon i'r staff i gyd am eu holl waith caled a'u cefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Rwyf wedi bod yn arbennig o ffodus o gael staff cydwybodol a thriw gydol fy amser yn Nolbadarn.

Diolch i'r disgyblion am eu cydweithrediad a'u cwmnïaeth. Fe fydd gan blant Llanberis le arbennig iawn yn fy nghalon.

Diolch hefyd i rieni a llywodraethwyr yr ysgol am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd, a'r un modd caredigion yr ysgol yn y gymuned.

Mae'r cydweithio hapus sydd ymhlith penaethiaid y Dalgylch yn rhywbeth mae llawer dalgylch yn cesio ei efelychu. Braf iawn i mi felly yw mai pennaeth lleol sydd yn dod i Ddolbadarn yn fy lle yn Ionawr. Pob dymuniad da i Gareth Fôn Jones ar ei benodiad i'r swydd - mae'n siŵr nad yw pobl Llanberis yn boblogaidd ym Mhenisarwaun y dyddiau hyn!! Pob dymuniad da hefyd i Bethan Jones sy'n cymeryd gofal o'r ysgol am y tymor i ddod.

Diolch hefyd am yr anrhegion arbennig a'r holl ddymuniadau da.

ROLANT N. WYNNE

Y GANOLFAN. Cynhelir pwyllgor blynyddol y Ganolfan yn y neuadd bwyllgor am 7.00 o'r gloch nos Lun, Medi 19eg. Bydd croeso i bob enwad yn y pentref anfon cynrychiolaeth i'r pwyllgor.

DIOLCH. Dymuna Enid, Delfryn, Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Mrs Anne Wilson Evans, 'Manod', Ffordd Capel Coch, ddiolch i'w theulu, cymdogion, a'i holl ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati yn dilyn ei hymweliad â'r ysbyty yn ddiweddar.

DIOLCHIADAU. Dymuna Sheila, Sybil a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn dilyn colli Donald Pritchard, Ty'n Y Ffordd, Minffordd Road, Llanrug. Diolch arbennig i Gwynfor Jones o E W Pritchard am eu trefniadau trefnus ac i'r Canon Idris Thomas am ymgymryd â'r gwasanaeth yn yr amlosgfa.

DIOLCHIADAU. Dymuna teulu'r diweddar Mrs Grace Roberts, 1 Waterfall View, fynegi eu diolch a'u gwerthfawrogiad diffuant iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt, trwy alwad ffôn, ymweliad neu gerdyn, yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar.

Gwerthfawrogir y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Anti Gracie, tuag at Plas Pengwaith, Llanberis.

Ein diolchiadau hefyd i'r Parch Phillip Hughes, Mr Derek Jones a Mr Iwan Williams yr organydd, am eu gwasanaeth ar ddydd yr angladd, i swyddogion Eglwys St. Padarn ac i Mr Dafydd Owen am ganu'r gloch.

Diolch o galon i holl staff Plas Pengwaith am eu gofal arbennig.

Yn olaf, diolch i Gwynfor o ymgymerwyr E.W. Pritchard am y trefniadau trylwyr a phroffesiynol.

YSGOL SUL CAPEL COCH. Roedd wythnosau ola'r tymor cyn gwyliau'r haf yn rhai prysur yn yr Ysgol Sul.

Bu rhai o blant hynaf yr Ysgol Sul yng Ngholeg y Bala am ddwy noson, o nos Wener, Mai 20 hyd bnawn Sul, Mai 22.

Ddydd Sul, Mehefin 5, bu'r plant yn cymryd rhan yng Nghymanfa Annibynwyr Cylch Cwm-y-glo a gynhaliwyd eleni eto yn Ysgol Gymuned Penisarwaun. Cyflwynwyd dameg y Mab Afradlon yn ein heitem ni y tro hwn. Diolch yn fawr i athrawon yr Ysgol Sul a'r rheini am eu cefnogaeth, ac i'r plant am wneud eu gwaith yn rhagorol.

Ddydd Sul, Mehefin 26, cynhaliwyd ein Picnic Blynyddol ym Mharc Padarn ddydd ar ôl yr Oedfa Deulu a gynhaliwyd yn y capel. Seiliwyd yr oedfa ar Weddi'r Arglwydd, gan fod gwersi'r Ysgol Sul y mis blaenorol wedi rhoi sylw i'r Weddi. Roedd yn dda gweld cynulleidfa gref yn yr oedfa. Daeth nifer dda drosodd i Barc Padarn wedyn, ac unwaith eto cawsom dywydd braf iawn ar gyfer y Picnic. Mae'r lleoliad yn arbennig o braf ar ben yr hen domen lechi dan Ysbyty'r Chwarel, efo digon o le a golygfeydd arbennig dros y llyn. Bu'r plant yn chwarae gemau cyn ac ar ôl bwyta'u picnic, a diolch yn fawr i Dafydd am drefnu'r gemau eto. Cafwyd digon o redeg o gwmpas, a digon o hwyl.

TRIP YSGOL SUL. Aeth llond bws ohonom ar Drip yr Ysgol Sul i Barc Camelot, ger Preston, ddydd Sadwrn, Gorffennaf 9. Roedd yn anodd credu bod yna 5 mlynedd ers i ni fod yno ddiwethaf! Cawsom dywydd braf ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn arw ar yr holl reidiau. Ar y ffordd adref, roedd rhaid aros am fwyd - fel y gwnawn bob blwyddyn – i ddweud helo a chael pryd o fwyd gan Mr McDonald yn Nhreffynnon.

CAPEL COCH. Cynhelir y nesaf yng nghyfres oedfaon 'Moli' am 5.00 o'r gloch, nos Sul, Medi 11. Mae'r oedfa hon yng ngofal Gwenno a Dafydd Pritchard ac Andrew Settatree, a phobl ifanc y clybiau a gynhelir dan nawdd Cynllun Efe. Mae'n oedfa wahanol a bendithiol, ac mae wedi ei chynnal yn fisol erbyn hyn, ar yr ail nos Sul o'r mis, ers cyn y Nadolig. Mae croeso cynnes i chi ymuno â ni yn yr oedfa hon os nad oes oedfa yn eich capel neu eglwys chi. Cawsom gwmni Andy Hughes, Cyfarwyddwr yr elusen Gristnogol, Saint yn y Gymuned, yn yr oedfa nos Sul, Mehefin 12. Dowch draw, i foli Duw gyda ni, ac i fwynhau paned a sgwrs ar ddiwedd yr oedfa.

GEMAU GIAMOCS. Cynhaliwyd Gemau Giamocs dan nawdd Cynllun Efe yn Y Ganolfan nos Wener, Mehefin 3. Cafwyd help aelodau o staff Coleg y Bala, Zoe a Carys, a diolch iddynt am ddod atom i gynnal y gemau ac i gyflwyno neges i'r plant. Fe lwyddon nhw i gyflwyno'r Ffydd trwy sôn am gyfres deledu'r Simpsons.



*Picnic Blynyddol Ysgol Sul Capel Coch*


PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260



PRYDAU DA AR GAEL POB DYDD
CANOL DYDD
A GYDA'R NOS
Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng 12.30 a 3.00 o'r gloch
TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00
Cyfleusterau- Bartion• Priodasau ac Achlysuron Arbennig

# LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant Mis Gorffennaf oedd: 1. Elen Jones, 4 Hafan Elan; 2. Dawn Jones, 2 Talybont; 3. Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn.

PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb cant Mis Awst oedd: 1. Deiniol Evans; 2. Einir Gwyn.

SÊL 'O GAREJ I GAREJ'

**Dydd Sadwrn, 1 Hydref**

Gallai dydd Sadwrn, 1 Hydref, fod yn ddiwrnod prysur iawn ym mhentref Llanrug. Yn dilyn llwyddiant Taith y Gerddi 'nôl ym Mehefin, gobeithir trefnu Sêl 'O Garej i Garej'.

Yn null Sêl Cist Car, bydd yn gyfle i bobl werthu nwyddau o bob math oddi ar fyrddau, wedi eu gosod i mewn neu tu allan i'w garej. Mae'n siawns i gasglu a chlirio pethau nad oes eu hangen arnoch mwyach, a chodi arian at achos da yr un pryd.

I gael diwrnod llwyddiannus arall, apeliwn ar i nifer dda o bobl gefnogi'r fenter newydd yma. Ffoniwch Mary Roberts, Bedw Gwynion ar (01286) 675605 os ydych am helpu mewn unrhyw ffordd.

LLONGYFARCHIADAU i Bethanne Williams, Disgwylfa, Ffordd yr Orsaf, ar ei llwyddiant yn ennill gyda'i bresych yn Sioe Byw yn yr Ardd S4C yn Rhosgadfan yn ddiweddar.

Gwnaeth gardd Bethanne argraff fawr ar nifer o'r ymwelwyr a fu yno yn ystod Taith y Gerddi ym Mehefin. Yn amlwg, mae Russel hefyd wedi dotio ar gynnyrch yr ardd arbennig hon.

BABIS NEWYDD. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar enedigaeth eu babis newydd:

Bryn a Gwenan Jones (Brynrefail) ar enedigaeth Llywelyn Pennant, brawd bach i Nel a Buddug ac ŵyr cyntaf i Hefin a Linda, Pant Mwyn.

Judith ac Andrew Beech, Ffordd yr Orsaf, ar enedigaeth Elain, chwaer fach i Catrin ac wyres i Jane a Norman Jones.

Eleri a Sion Stokes, Penlon, Ffordd Bryngwyn, ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Idan. Llongyfarchiadau i chi a Mark a Rhiannon Stokes, taid a nain am y tro cyntaf.

Dafydd a Gwenda, Coedlys, Ffordd Glanmoelyn, ar ddod yn Daid a Nain am y tro cyntaf hefyd, ganwyd mab bach, Elis Griffith Thomas, i Dewi a Sarah yn Lerpwl.

DIOLCHIADAU. Dymuna Anwen, 2 Cefn Elan, a'r plant, Ceryl, Ceren, Einir ac Emyr, ddiolch o galon i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion lu am y cardiau a'r galwadau ffôn a fu yn help mawr iddynt pan oedd Elwyn yn wael ar ôl llawdriniaeth fawr yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i bawb.

Fe ddymuna Ann Parry Jones, Perthi, Bryngwyn, ddiolch yn arw am yr holl anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 oed. Diolch yn arbennig i'r teulu am y parti 'Syrpreis' ac am y rhoddion ariannol tuag at Ymchwil Epilepsi. Diolch o galon.

DATHLU ARBENNIG. Ar 8fed o Fedi bydd Clifford ac Eleanor Williams, Afallon, Rhes Rhyddallt, yn dathlu eu Priodas Ddeiamwnt. Fe'u priodwyd gan y Parch A.O.J. Thomas, Ficer Eglwys Llangian, Llŷn yn 1951. Llongyfarchiadau mawr ichi, mwynhewch y dathlu.

DYMUNIADAU GORAU i Haf Thomas, Buarthau, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 40 mlwydd oed. Llongyfarchiadau mawr iti a gobeithio dy fod wedi cael amser da.

LLONGYFARCHIADAU i Gwyndaf a Mair Huws, Glasgoed, ar ddathlu eu Priodas Ruddem.

PROFEDIGAETHAU

Estynnwn gydymdeimlad diffuant at Nia a Neil yn dilyn marwolaeth eu mam, Gwyneth Roberts, Bryniau Fawnog, gweddw Maldwyn, Ty'n Rardd gynt.

CYDYMDEIMLWN yn yr un modd â David a Sue Owen, Bryn Moelyn, yn dilyn marwolaeth mam Dave a nain annwyl i Rebecca a Sophie.

ROBERT JOHN JONES. Bu farw (Bob) brawd hynaf Jim, 9 Afon Rhos, a Charles, Dwyros, Ffordd Glanffynnon, ar 1af o Awst wedi cystudd byr.

Symudodd Bob i fyw i gyffiniau Manceinion wedi gorffen ei wasanaeth cenedlaethol yn 1956. Dechreuodd weithio gyda'r GPO ym Mangor, ond ymunodd â Plessey Telecommunications wedi ei symudiad i Fanceinion. Cafodd yrfa lwyddiannus gyda Plessey gan codi drwy'r rhengoedd i fod yn Rheolwr Rhyngwladol y cwmni. Ond, un o hogia Llanrug oedd Bob drwy'r cyfan, yn dal i ymddiddori yn y band y buodd yn aelod ohono, sef Band Llanrug. Mae Bob yn gadael priod, dwy ferch, wyrion a wyresau.

HEFYD, bu fawr Donald Pritchard, Ty'n y Ffordd, Ffordd Minffordd, ar ôl gwaeledd hir. Cydymdeimlwn â'r plant, Neil, Nigel a'u teuluoedd a'i ddwy chwaer, Sheila, Sybil a'r teulu i gyd.

PRIODAS. Ar ddydd Gwener, 12 Awst, priodwyd Owain Machno, Afallon, Bryn Moelyn â Glesni, yn Betws Gwerfyl Goch. Cafwyd diwrnod bythgofiadwy. Bydd y cwpwl yn ymgartrefu yng Nghaerdydd a dymunwn bob hapusrwydd iddynt.

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau i Luned Mair Jones, Pant Mwyn, ar ei dyweddiad â Ceri John o Benrhyn Coch. Pob dymuniad da i ch eich dau.

BRYSIWCH WELLA. Deallwn fod Olwen Jones, Wern, wedi cael triniaeth yn Ysbyty Broad Green, Lerpwl, ond wedi cael dod adref erbyn hyn. Cofion gorau a brysiwch wella.

PRIODAS. Llongyfarchiadau mawr i Lowri Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, ar ei phriodas â Yankier Pijeira Perez o Cuba. Pob dymuniad da i chi eich dau.

MWY O FABIS NEWYDD. Ganwyd merch fach, Nia, i Ieuan Green a Michelle yn Nulyn, Gweriniaeth Iwerddon. Llongyfarchiadau i chi ac i Frank a Meryl Green, Pontrug, ar ddod yn Daid a Nain am y tro cyntaf.

HELFA DRYSOR. Bydd cangen Plaid Cymru Llanrug a'r Cylch yn trefnu Helfa Drysor, Noson o hwyl a chwilota ar nos Fercher, 14 Medi.

Bydd y daith yn cychwyn o arosfan Ysgol Brynrefail am 6.15 yr hwyr a'r gost fydd £4 y car.

Enwau ac archeb bwyd cyn gynted â phosib i Nan (675668) neu Meryl (677149).

Croeso cynnes iawn i bawb ymuno yn yr hwyl.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Meinir Llwyd, Gwion, Tomos a Berian, Hafan, Ffordd Glanmoelyn, yn eu profedigaeth o golli tad a thadcu arbennig iawn yn Ystradgynlais.

CANLYNIADAU ARHOLIAD. Erbyn hyn mae'r canlyniadau i gyd wedi dod i law. Hoffwn ddymuno yn dda i bawb yn eu meysydd dewisol.

LLUNIAU. Cawsom ddau lun gan Mrs Megan Pritchard, 3 Hafan Elan: un o barti o ferched Llanrug, ond does dim gwybodaeth am y 'trip'.

Diolch i Mrs Ellen Jones, 4 Hafan Elan, a Menna Williams, Minffordd, am restr o enwau y merched. Mae rhai bylchau yma, tybed a ŵyr rhywun pwy yw'r lleill a beth oedd y 'trip'?




*parhad ar dudalen 19*

Caffi Caban
ar Agor
9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

caban cyf

*Cofiwch gefnogi ein hysbysebwyr*

# DATHLU'R DEUGAIN

## Amgueddfa Lechi Cymru'n paratoi ar gyfer dathlu'i phen-blwydd yn 40
## Diwrnod Atgofion Amgueddfa: Awst 17eg 2011 – 1pm-3pm

Bydd Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis yn dathlu'i phen-blwydd yn 40 yn 2012 ac mae'n gobeithio cael help llaw gan y gymuned leol i gasglu atgofion o'i dyddiau, wythnosau a misoedd cyntaf!

Caeodd y gweithdai Fictoraidd gwreiddiol – sy'n gartref erbyn hyn i Amgueddfa Lechi Cymru – yn Awst 1969 ynghyd â chwarel lechi Dinorwig. Ail-agorwyd y safle Mai 26ain 1972 fel Amgueddfa Chwareli Gogledd Cymru. Eglurodd Dr. Dafydd Roberts, Ceidwad yr Amgueddfa, ymhellach:

'Ers y diwrnod hwnnw yn 1972, mae'r enw wedi newid i Amgueddfa Lechi Cymru ac mae ymhell dros dwy filiwn a hanner o bobl wedi camu trwy'r porth a phrofi hanes y diwydiant llechi yn yr ardal hon.

'Rydyn ni am i'n pen-blwydd yn ddeugain adlewyrchu a dathlu yr holl weithgaredd mae'r lle arbennig hwn wedi'i weld dros y degawdau diwethaf, o'r dyddiau agoriadol yn y saithdegau i'r ail-ddatblygu mawr fu yn niwedd y nawdegau i Mynediad am Ddim yn y mileniwm newydd.'

Mae'r amgueddfa ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth am yr agoriad ei hun yn 1972 a'r dyddiau cynnar yn y 70au.

'Rydyn ni'n gwybod fod cannoedd o filoedd o bobl wedi ymweld â'r amgueddfa yn ystod y blynyddoedd cynnar,' meddai'r Curadur, Cadi Iolen. 'Os oes gan unrhyw un luniau neu gofroddion neu atgofion o'r dyddiau cynnar hynny, mi fuasen ni wrth ein boddau'n clywed ganddynt.'

Mae croeso i chi gysylltu â'r amgueddfa ar 01286 870630 neu drwy ebostio llechi@amgueddfacymru.ac.uk .

*Mewn partneriaeth â Culturenet Cymru a Chasgliad y Werin Cymru.*



*Cyn brif Beiriannydd y gweithdai, Mr Hugh Richard Jones. Roedd yn gyfrifol am y safle wedi iddi agor fel Amgueddfa yn y saithdegau.*

# A wyddoch chi pwy ydi rhain?

Tynnwyd y ffotograffau yma yn yr Amgueddfa Lechi yn 1973 gan y ffotograffydd lleol, Emlyn Baylis. Mae'r amgueddfa yn ymwybodol o pwy ydi rhai o'r plant yn y ffotograffau ond nid pawb. Os oes unrhyw wybodaeth gennych, a fyddwch cystal a chysylltu â'r amgueddfa ar 01286 870630.



*Caban: Plant yng Nghaban yr amgueddfa*



*Malwoden Lwyd: Plant yn 'car gwyllt' (velocipede) yr amgueddfa – y falwoden lwyd!*

# *Parhad* LLANRUG



DYMUNA genod dan 10 Llewod Llanrug ddatgan eu diolch i noddwr y tîm, sef Cwmni Orritt Construcion Ltd, am y cit newydd. Edrychwn ymlaen at y tymor nesaf.

DIOLCHIADAU Dymuna Sheila, Sybil a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn dilyn colli Donald Pritchard, Ty'n Y Ffordd, Minffordd Road. Diolch arbennig i Gwynfor Jones o E. W. Pritchard am eu trefniadau trefnus ac i'r Canon Idris Thomas am ymgymeryd â'r gwasanaeth yn yr amlosgfa.

DIOLCH O GALON. Dymuna Haf Thomas, Buarthau, ddiolch o waelod calon i'w mam a'i thad a'i chwaer annwyl, Ffion, am ddathliadau bythgofiadwy ar achlysur ei phen-blwydd arbennig. Mawr ei diolch i'r teulu oll, ffrindiau a chymdogion a chydweithwyr am y llu cardiau, anrhegion ac arian a'r dyddiau lu o ddathliadau hapus. Diolch o waelod calon i bawb.

MERCHED Y WAWR. Bydd y Gangen yn ailgychwyn nos Fawrth, 13 Medi, am 7.3o yr hwyr yn Festri Capel y Rhos (y mis hwn yn unig). Y wraig wadd fydd Gwenno Glyn o'r Bontnewydd gyda'i datganiadau ar y delyn a'r piano. Edrychir ymlaen am gyfarfod â'r aelodau ffyddlon ac mae croeso cynnes i aelodau newydd. Bydd y Gangen yn cyfarfod yn y Sefydliad Coffa o Hydref ymlaen.

**Ymddiheuriad**

Mae'n ddrwg gennym fod llun o Salon y Sgwâr Llanrug wedi ymddangos yn rhifyn Gorffennaf heb ysgrifen oddi tano. Agorwyd menter trin gwallt Kathy Thomas ym mis Mehefin gan y Cyngh. Charles Jones. Mae Kathy eisiau diolch i'w holl gwsmeriaid ac am yr holl ddymuniadau da gan bawb. Da yw deall fod y busnes yn mynd rhagddo o nerth i nerth a dymunwn y gorau i'r Salon i'r dyfodol.



*(Sefyll o'r chwith): Mrs Martha ...., Delfryn, Rhosrug; Jennie Williams; Mrs Green; ? , ? , ? , Mrs Amy Whiteside Smith; Jennie May Jones; Ann Pritchard (Pensarn); Bessie Jones; Mary Williams, Crawia; (Yn eistedd) Megan Pritchard; Nesta Pritchard; Mrs Jones, Parc; Morris D. Jones; Nancy Jones; Myfi Roberts; Buddug Williams.*

# Parhad WAUNFAWR

CYFARFOD FFARWELIO. Ddiwedd tymor yr haf croesawyd rhieni a theuluoedd disgyblion Blwyddyn 6 i ymuno gyda staff a disgyblion yr ysgol yn y Ganolfan i wasanaeth ffarwelio â'r dau ddeg pump disgybl. Cyflwynwyd tarian i bob un yn nodi eu diddordeb a'u gwasanaeth i'r ysgol yn ystod y blynyddoedd. Diolch i Mrs Gwenan Williams a staff yr ysgol am drefnu y fenter newydd, ddiddorol a hwyliog ac ychydig yn drist yma. Roedd deigryn yn llygaid rheini a disgyblion.

YR YSGOL SUL. Dymuna plant a swyddogion yr Ysgol Sul yn Eglwys y Waun ddymuno ymddeoliad hapus i Mrs Nia Rhys Jones, Eryri Wen, wedi iddi fod yn athrawes ysgol Sul am nifer o flynyddoedd. Cyflwynwyd tusw o flodau i Anti Nia fel gwerthfawrogiad o'i gwaith a'i gofal.

Bydd tymor newydd yr ysgol Sul yn cychwyn yn nechrau Medi ac mae croeso i blant y pentref ymuno bob bore Sul am 10 o'r gloch yn y capel.

DIOLCH i weithwyr cynllun Efe am drefnu noson o Gemau Giamocs i blant ifanc y pentref yn ystod mis Mehefin. Yn anffodus methwyd â chynnal y cyfarfod.

DIOLCH. Dymuna Don a Luned Roberts, Sŵn y Gwynt, ddiolch am y caredigrwydd a'r gofal a dderbyniodd Don tra bu yn yr ysbyty ac wedi iddo ddod adref.

DIOLCH. Dymuna Leslie ac Eirian Jones, Bro Dawel, ddiolch am y caredigrwydd a'r gofal a dderbyniodd Leslie tra bu yn yr ysbyty ac wedi iddo ddod adref.

DIOLCH. Dymuna Mrs Jane Roberts, Glasfryn, ddiolch am y caredigrwydd a'r gofal mae wedi ei dderbyn tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch i'w ffrindiau sydd wedi galw i'w gweld a'i ffonio.

DIOLCH. Dymuna Elfyn, Menna a'r teulu, Blaen y Nant, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain mor annwyl.

AR YMWELIAD. Yn ystod mis Mai a Mehefin, daeth Mrs Angelica Evans a'i dau fab, Iestyn a Pablo, o'r Ariannin ar ymweliad â Chymru ac yma yn y Waun y bu'r tri. Roeddynt yn mynd i'r ysgol yma bob dydd ac wedi mwynhau pob munud. Yr hogiau wrth eu bodd yn gwneud ffrindiau newydd a siarad Cymraeg. Erbyn hyn maent yn ôl adref yn cofio am y profiadau a gawsant yma ac yn dymuno diolch o galon i bawb a fu mor garedig wrthynt.

ANFONWN ein cofion at Mrs Anne Williams, Stad Glyn Afon, sydd wedi bod mewn damwain car ar y draffordd. Yn ofnadwy o lwcus ni anafwyd Mrs Williams.

CÔR Y WAUN. Roedd cyngerdd diweddaraf Côr y Waun, sef côr o gantorion o ardal y Waunfawr, nid yn unig yn llwyddiant ysgubol ond hefyd yn gyfrwng i'w galluogi i gyflwyno siec am £1,000 i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Trefnwyd y cyngerdd ar y cyd hefo Adlais, côr o Ynys Môn. Yr unawdwyr oedd Elfed Morris o Ddeiniolen, enillydd Cân i Gymru, a Catrin Angharad Roberts o Lanbedrgoch, enillydd Ysgoloriaeth Bryn Terfel.

Meddai Sam Davies, Cadeirydd Côr y Waun, 'Roedd y cyngerdd yn llwyddiant mawr ac rwy'n falch ein bod hefyd wedi medru codi'r swm anrhydeddus o £1,000 i Ward Alaw, ar gyfer mwyniant y cleifion.

Mae hyn yn berthnasol iawn i ni yn y Waun gan ei fod yn deyrnged haeddiannol iawn i Ffion Haf, prif unawdydd y côr, a fu farw o gancr yn gynharach eleni. Roedd ei chyfraniad, nid yn unig i'r côr ond hefyd i'w hardal, yn amhrisiadwy.'



*Carnifal Llanrug*



*Heulwen Jones (Ysgrifenyddes), Sam Davies (Cadeirydd) Côr-y-Waun a Derek Hughes, Cadeirydd Adlais, yn cyflwyno siec am £1,000 i Nyrs Hope Barlow a staff Ward Alaw.*

# Parhad LLANRUG eto!



*Clwb Cinio Hafan Elan yn mwynhau eu cinio gan Age Concern bob dydd Mawrth.*

**BABIS NEWYDD**
Llongyfarchiadau i Eurwyn a Carys Lloyd Evans, Carwyn, Ffordd Bryngwyn ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd Daniel Gethin yn ystod mis Mehefin, mab bach i Amlyn a Sarah. Pob bendith a dymuniadau gorau i'r teulu cyfan.

Ar Awst 18fed, daeth Gareth ac Alwena Williams, Y Wenallt yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd Leusa Grug i Nia Elain a Rhys Alun Roberts. Mae Gwern Elis wrth ei fodd gyda'i chwaer fach newydd. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Ar Awst 22ain, ganwyd Gruffudd Rowlands, mab bach arall i Catrin a Gwyndaf, Glanffynnon. Brawd bach arbennig i Morgan ac wyr i Eirianwen a Dafydd Thomas. Mae hefyd yn or-wyr i Mrs. Owen, 10 Hafan Elan. Pob dymuniad da i'r teulu bach yma hefyd.

**CAPEL Y RHOS** - Oedfaon Mis Medi
Medi 4 – Y Gweinidog – Y Parch Marcus Wyn Robinson. Gweinyddir y Cymun
Medi 11 – Mr. Robert Morris
Medi 18 – Y Parch Marcus Wyn Robinson, y Gweinidog.
Medi 25 – Y Parch Ddr Elwyn Richards

**PEL BONWS APÊL YR URDD 2012**
Diolch o galon i bawb am ddal i gefnogi apel Llanrug a Chwm y Glo gyda'r bel bonws. Mae bellach £600 wedi ei drosglwyddo i'r gronfa. Dyma'r rhai fu'n lwcus yn ystod yr wythnosau diwethaf.
Mehefin 25 – rhif 31 – Esyllt Llwyd, Y Goedlan ( eto!)
Gorffennaf 2 – rhif 6 – Hefin Jones, Pant Mwyn,Llanrug
Gorffennaf 9 – rhif 39 – Margaret Williams, Bryn, Cwm y Glo
Gorffennaf 16 – rhif 30 – Mary Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
Gorffennaf 23 – Margaret Williams, Bryn, Cwm y Glo - hefo rhif 39 eto!
Gorffennaf 30 – rhif 48 – Meryl Green, Pontrug.
Awst 6 – rhif 19 – Jean Williams, 19 Minffordd, Llanrug
Awst 13 – rhif 3 – Wendy Parry, Nant y Glyn, Llanrug
Awst 20 – rhif 24 – Jennifer Thomas, 48 Glanffynnon, Llanrug

# Ail gyhoeddi Cerddi Straeon a Sonedau

Bardd y Dwbl yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 'nôl ym 1912 oedd T.H. Parry-Williams a chyfrol gyntaf o'i waith ef sydd bellach yn rhan o gyfres Glasuron Gomer.

Mae *Cerddi, Rhigymau a Sonedau*, a ymddangosodd gyntaf ym 1931, yn gyfrol eiconig gan fardd eiconig.

Dyma'r ail deitl yng nghyfres chwaethus Clasuron Gomer yn dilyn cyhoeddi *Dail Pren* gan Waldo y llynedd.

Rhwng cloriau *Cerddi, Rhigymau a Sonedau* T.H. Parry-Williams, ceir gweithiau adnabyddus megis Dychwelyd, yr Esgyrn Hyn, Moelni, Y Ferch ar y Cei yn Rio, i enwi ond rhai. 'Mae ymadroddion a llinellau a chwpledi llawer o'r cerddi a geir ynddi wedi dod yn rhan o wead yr iaith Gymraeg erbyn heddiw; daethant mor gyfarwydd inni ag adnodau Beiblaidd neu ddiarhebion,' meddai Angharad Price yn ei rhagair i'r gyfrol.

Gyda chyhoeddi ei gyfrol gyntaf un o farddoniaeth, daeth T.H. Parry-Williams, yn ddeugain a phedair oed, i gymryd ei le yn un o 'ddelweddau pantheon barddol Cymru'.

Pwysleisiodd nifer o feirniaid nodedig ddylanwad pellgyrhaeddol Parry-Williams fel arloeswr barddonol. Tystia Angharad Price hefyd dros flynyddoedd o ddarlithio mai 'gwaith T.H. Parry-Williams, o blith holl feirdd yr ugeinfed ganrif, sydd yn dal i apelio rwyddaf at Gymry ifanc yr unfed ganrif ar hugain.'

'Credaf fod hynny'n deillio o'i ddefnydd moel o iaith, a hefyd ei gyfuniad o sgeptigaeth a chyfriniaeth, y diddordeb mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, ynghyd â'r ymwybod (tra chyfoes) â'n perthynas dyngedfennol ni â'r byd a'i rymoedd ofnadwy,' ychwanega Angharad Price

*Pris y gyfrol: £7.99*

## NOFEL NEWYDD EURON

# Dyn Pob Un

Llofruddio, Cadillacs, môr-ladron, General Custer a Mr Nice... byd rhyfeddol ond gwir Euron Griffith.

*'Does dim llawer o sgrifennwyr doniol yn y Gymraeg ond dyma un – mae'n siarp fel rasel ac yn sur fel lemwn.'*

Jon Gower

*'Mae hiwmor ar ei ora pan mae'n seiliedig ar realiti – dyma lle mae Euron Griffith yn rhagori.'*

Rhys Mwyn

Beth fyddwch chi'n ei wneud dros yr haf? Beth am fynd ar daith gyffrous gydag Irfon Thomas – dyn cyffredin sy'n breuddwydio am fod yn nofelydd enwog ond sy'n gorfod bodloni ar weithio fel ymchwilydd teledu.

Irfon yw prif gymeriad *Dyn Pob Un*, nofel newydd Euron Griffith, awdur a gafodd ei fagu ym Methel ond sydd bellach yn byw ym Mhontcanna, Caerdydd. Lansiwyd y nofel gan Y Lolfa nos Fercher, 15 Mehefin yng Nghaerdydd. Roedd band Euron Griffith, 'Y Soda Men', yn chwarae yn y lansiad.

Mae'r nofel yn mynd â ni ar antur ryfeddol. Ond fel mae'r teitl yn awgrymu mae iddi elfennau y gall pob un uniaethu â hwy.

'Mae'n wir i ddeud, reit siŵr, fod 'na elfennau hunan-gofiannol yn cropian i mewn i bob nofel,' meddai Euron Griffith. 'Ond mi fedra i ddeud hyn hefo tafod di-flewyn – dwi rioed wedi lladd neb, dwi rioed wedi ennill BAFTA (dim hyd yn oed BAFTA Cymru), dwi rioed wedi ennyn unrhyw fath o ddiddordeb gan y One Show a dwi rioed wedi bod yn berchen ar Ford Granada (er, mi oedd gen i Cadillac am sbel yn yr wythdegau).'

Mae'r gwir yn rhyfeddach na ffuglen, mae'n rhaid. Ar ôl ysgrifennu y nofel gomedi gyffrous hon am lofruddiaeth cafodd yr awdur waith – yn gweithio ar y Crimewatch Roadshow. Mae'n siŵr y bydd llyfr nodiadau Euron Griffith yn orlawn a'i olwg unigryw ar y byd troseddol yn ysbrydoliaeth.

'Dwi'n gyfrifol am ffendio storis, trefnu reconstructions, ffilmio eitemau a'u rhoi nhw at ei gilydd hefo'r cynhyrchydd. Ddoth 'na dditectifs i'r swyddfa wythnos yma ac, i fod yn onast, ges i fy nychryn pa mor ifanc oedda nhw a dyma fi'n meddwl i fi fy hun "mmm... falla fod DI Kidd yn agosach i'r gwirionedd nag oeddwn i'n feddwl.'

Mae *Dyn Pob Un* yn nofel boblogaidd ac mae'r awdur yn ceisio adleisio arddull sgrifennwyr poblogaidd eraill fel Nick Hornby a'r Americanwr, Richard Brautigan.

## Gwaith/Cartref

### drama newydd i'r Hydref ar S4c.

*Adolygiad Owain Gruffudd*

A minnau newydd adael yr ysgol am byth, siom oedd deall y byddai'n rhaid i mi fynd yn ôl yno eto, a hynny cyn diwedd yr haf! Ond siom ar yr ochor orau ges i ar ôl gwylio'r bennod gyntaf yng nghyfres ddrama newydd S4C, *Gwaith Cartref*. Mae'r gyfres yn dilyn bywydau criw o athrawon yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Taf, a gyda llu o wynebau cyfarwydd yn rhan o'r cast, does dim rhyfedd fod y ddrama yn un mae pobl yn edrych ymlaen at ei gweld.

Yn dilyn llwyddiant cyfresi eraill fel *Waterloo Road*, sydd wedi eu gosod mewn ysgolion, mae *Gwaith Cartref* yn canolbwyntio ar fywydau'r athrawon yn bennaf, ac yn ceisio cyfleu i'r gwylwyr sut beth ydi bywyd athro neu athrawes. Ac o ganlyniad i ymddygiad direidus, os nad drwg, rhai o'r disgyblion, mae'n hawdd iawn cydymdeimlo hefo'r athrawon sydd dan bwysau mawr ar adegau. Daw hynny'n boenus o amlwg yn y bennod gyntaf yn hanes yr athrawes Ddaearyddiaeth, Mrs. Lloyd.

Ond mae yna ysgafnder yma hefyd, ac mae hynny'n cael ei greu yn effeithiol iawn wrth symud o un olygfa i'r llall, ac o ddosbarth i ddosbarth. Mae'r ddrama'n symud yn gyflym, ac yn llawn digwyddiadau sy'n gwneud i chi chwerthin un munud a chydymdeimlo y funud nesaf. A na, tydi athrawon ddim mor barchus a diflas â hynny chwaith!


Mae'r gyfres yn llawn cymeriadau dadleuol a difyr, sy'n cael eu portreadu'n gofiadwy gan rai o brif sêr y sgrin fach yma yng Nghymru, fel Siw Hughes, Huw Rhys a Lauren Phillips. Mae'n gyfres sy'n siŵr o apelio at bobol ifanc ac oedolion, ac mae un peth yn sicr, am y tro cyntaf yn fy mywyd, dyma un Gwaith Cartref y byddaf yn edrych ymlaen ato pob wythnos.

Gwaith /Cartref

**Nos Sul, 18 Medi ar S4C**
**cyfeiriad facebook yw:**
**www.fb.com/gwaithcartref**




*Staff yr ysgol*

BOCS O FFRWYTHAU A LLUSIAU

£10. Wedi ei ddanfon AM DDIM yn lleol

ffoniwch - WIL, PEN-LLYN 07999O926484

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:

FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU

*Bwyd lleol*

*Busnesau cefn gwlad*

*Economi wledig*

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

**Buddsoddi yn eich cymuned**

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935



# Ar Ben Arall y Lein

O'r diwedd daeth gwybodaeth i law sy'n cadarnhau yn swyddogol beth yw gwreiddyn y problemau sy'n effeithio ar Lyn Padarn a'r Afon Seiont. Derbyniwyd y newydd yma yn ystod cyfarfod o Fforwm Padarn ym Mangor ar 8ed Gorffennaf. Cafwyd cyflwyniad manwl ar ganlyniad archwiliadau Asiantaeth yr Amgylchedd. Beth yw'r achos felly, a pwy fuasai wedi meddwl y fath beth! Be yw'r broblem? – Wel, carthffos, wrth gwrs. Yr ydym fel cymdeithas wedi bod yn pwyso mai dyma'r union broblem ers 1992, mae felly wedi cymryd 19 o flynyddoedd i'r ffaith yma gael ei derbyn gan yr awdurdodau.

Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei chyhoeddi ar 31 Awst, ac os am ei darllen mae crynodeb ar gael ar wefan y clwb sef www.sgll.co.uk

Ond does dim i'w ennill o drwy edrych yn ôl, rhaid bod yn bositif a chroesawu'r ffaith fod y broblem wedi ei hadnabod a bod camau yr y gweill i atal y llygredd. Ar y foment mae'r Asiantaeth yn disgwyl sylwadau Dŵr Cymru ar beth yw'r camau mae'r cwmni'n bwriadu eu cymryd i ddileu'r broblem yn gyfan gwbwl. Adroddaf ymhellach ar hyn pan ddaw y wybodaeth i law yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yn ddiweddar fe ymwelais ag Ynysoedd Lewis, Gogledd a De Uist, gan feddwl cael rhyw ychydig o bysgota ar lynnoedd enwog Machair. Yn anffodus i mi, ond wrth fodd rhai eraill o'r teulu, oedd y ffaith fod yno sychdwr mawr a thywydd heulog dros ben. Ond be rwyf eisiau cyfeirio ato yw'r ffaith fod ymweliad â'r ynysoedd yma yn fy nwyn yn ôl i'r dyddiau pan oeddwn yn byw mewn tyddyn bach wrth droed Moel Rhiwen, sef Cae'r Tŷ yn Neiniolen. Nid yn unig byddai caeau gwair Cae'r Tŷ, ond caeau'r tyddynnod cyfagos hefyd, sef y Fron, Cae Main, Coed Mawr, Berthen Gron, Foel Glochdy a Caeau Uchaf i gyd wedi eu gorchuddio â blodau gwyllt. Hefyd roedd clywed cri Rhegen yr ŷd yn beth cyffredin iawn i ni fel plant yn ystod misoedd yr haf. Ond gyda diflaniad y tyddynnod pan chwalwyd Ystad y Faenol, a'r newid dull o ffermio, prin iawn os o gwbwl yw ymweliad yr aderyn yma i Fro'r Eco. Dydw i heb glywed ei alwad yma ers dros 40 mlynedd.

Ond dyna bleser oedd pwyso ar giât yn edrych ar y caeau gwair blodeuog yng ngwarchodfa adar Balranaid yng Gogledd Uist a chlywed crec-crec y Rhegen yn nhin un o'r cloddiau. Roeddwn, am rhyw ennyd fer, yn dychmygu fy hun yn eistedd gyda'r hwyr ar ben clawdd yng Nghae'r Tŷ. O! ond petai, yntê! Wrth gwrs, does gan hyn ddim i'w wneud gyda physgota, ond y wers ydi os na wnawn ni warchod beth sydd yma yn awr, yna bydd colled enfawr i'r rhai fydd yn ein dilyn.

Wrth droi at y 'sgota unwaith eto, symol iawn ydi pethau wedi bod hyd yn hyn ar Lyn Padarn a'r Seiont. Hyd at ganol Awst dim ond rhyw ddau ddwsin o sewin trymaf i Tony Brown, Waunfawr am 3 pwys ac un eog am 6 phwys i Dr. Robin Parry, Llanberis, sydd wedi dod i'r rhwyd. Ar y llynnoedd eraill, sef Cwellyn, Dywarchen a Nantlle, mae pethau yn hollol wahanol gyda physgota eithriadol o dda.

Ond er hyn mae rhai yn ein mysg yn trio eu gorau i ddifetha pleser llawer drwy ddinistrio a dwyn eiddo'r Gymdeithas. Ar Nantlle fe daflwyd llechen enfawr o ben y jeti drwy un o'r cychod, ac ym Mhenllyn, Brynrefail, ar 10ed Gorffennaf fe ddwynwyd dau o gychod y Gymdeithas. Cafwyd hyd i un wedi ei guddio ar y Llyn yng nghefn DMM yn Llanberis a fe gafwyd un wedi ei baentio'n goch a'i angori yn y Cei yng Nghaernarfon.

Tipyn o lwc oedd fod person gyda'i gamera ar Bont Penllyn pan oedd un cwch yn cael ei ddwyn, ac mae llun o'r lleidr wedi ei drosglwyddo i'r heddlu. Clywais heddiw fod y rhwyd yn dechrau cau! Drwy drwsio a bod yn lwcus o gael y ddau gwch yn ôl, mae'r clwb wedi osgoi costau o oddeutu £6,000.

Diolch o galon i'r aelodau o'r cyhoedd oedd mor barod gyda'u cymorth i ddod â mater diflas fel hyn i ddiwedd llwyddiannus. Mis nesaf dwi'n addo taro mwy ar y 'sgota. Hefyd, ma hi wedi dechrau glawio ac mae'r enwair wrth law. Hwyl am y tro.


HUW PRICE HUGHES

# SUL I'W GOFIO

Daeth y rhengoedd unwaith eto i Fae Colwyn i groesawu Morgannwg. Cafwyd buddugoliaeth yn erbyn Swydd Caerlyr dros bedwar diwrnod, ac yna chwip o gêm undydd tra'n curo Sir Gaerhirfryn. Mewn 33 pelawd, colbiodd Morgannwg 328 gyda'r capten, Petersen, â batiad rhyfeddol o 144 yn cynnwys deg ergyd am 6. Adloniant pur. Yna'r troellwr, Dean Cosker, yn cipio 4 wiced tra'n bowlio'r ymwelwyr allan am 260. Roedd y dorf wrth eu boddau.

Mae ambell agwedd serch hynny yn mynnu trafodaeth. Braf o beth yw clywed cyn gymaint o drafodaeth am griced yn y Gymraeg dros y cyfnod. Serch hynny trist cofnodi mai Saesnig iawn yw'r elfennau o gyhoeddi. Sarhaus oedd y 'Diolch yn fawr' ar ddiwedd y gêm undydd. Gan gofio mai Cyngor Conwy yw un o brif noddwyr y gêm ym Mae Colwyn, gobeithio y gallant ddylanwadu ar y sefyllfa erbyn y flwyddyn nesaf. Hefyd, mae dau o brif swyddogion clwb Bae Colwyn – Dyfrig Thomas a John Wyn Roberts – yn hogia Deiniolen go iawn.

Caiff rhywun y syniad mae 'ymwelwyr' yw Morgannwg hefyd - yn chwarae gêm oddi-cartref. Trist yw hyn o gofio mai tîm 'Cymru' yw Morgannwg yn eu tyb hwy. Efallai y buasai chwarae mwy o gemau ail dîm Morgannwg, tîm y Siroedd llai Cymru (Minor Counties) a gêm derfynol Cwpan Cymru yn y gogledd weithiau yn helpu.

**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk


Cofiwch gefnogi'r rhai sy'n hysbysebu yn yr *Eco*

SMALA
www.smala.net
2,000 o gardiau busnes lliw llawn
£80 + TAW



01286 660 364
07887 654 251

POSH PAWS



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

Am gymorth:
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

# TLWS PÊL-DROED YR ECO 2011



Heb os hon fu un o'r cystadlaethau gorau ers sawl tymor o ran perfformiadau a threfniadau. Diolch arbennig i gyfeillion clybiau Llanrug a Llanberis am eu trefniadau trylwyr ar gyfer y gemau dan 9 a dan 11. Cafwyd cynrychiolaeth o bob pentref, gwledd o bêl-droed, dyfarnu penigamp a chefnogaeth dda. Gofynnodd llawer i mi pam nad ydym yn codi tâl mynediad. Nid ffordd o wneud arian yw pwrpas y noson. Fy mwriad yw dod ag ieuenctid yr ardal at ei gilydd am noson o gystadlu iach. Hefyd, i adlewyrchu y gwaith da a wneir gan nifer gyda'r ieuenctid yma. Drwy gynnal 'siop' mae'n ffordd i'r timau sy'n croesawu'r gemau i wneud tipyn o elw. Felly bentrefi, gadewch i mi wybod os ydych am groesawu cystadleuaeth 2012.

Cafwyd digon o goliau yn y gemau rhagbrofol dan 9. Yn y rownd gyn-derfynol roedd dau dîm Llanrug yn herio ei gilydd a dau dîm Bethel yn herio. Rhoddodd tîm iau Llanrug dipyn o fraw i'r tîm hŷn a rhaid oedd mentro i faes y 'gôl aur' cyn i Ben Owen rwydo a rhoi Llanrug 'A' yn y ffeinal. Cafwyd gêm agos rhwng hogia Bethel, ond y tîm hŷn a orfu 2-0, diolch i goliau Owain Lewis a Callum O'Donnell. Yr hen elynion i wynebu ei gilydd felly. Yn amlwg roedd Llanrug wedi blino o'r gêm flaenorol ac i Bethel yr aeth y tlws. 3-0 oedd y sgôr gyda Owain Lewis(2) a Huw Gwyn yn rhwydo. Noson arbennig o bêl-droed.

Noson o ddrama fu hi draw yn Llanberis ar gyfer y gystadleuaeth dan 11. 7 tîm, a phawb yn herio ei gilydd. Cafwyd sawl gêm agos gyda Bethel 'A', Llanrug 'A', Deiniolen (y deiliaid) a Llanberis yn y rownd gyn-derfynol. Am gemau! Bethel yn herio Llanberis i ddechrau. Chwip o gêm, llawn cyfleon ac arbedion cyn i gôl Iwan Parry roddi Bethel trwodd. Yna y deiliaid, Deiniolen, yn trechu Llanrug. Allai Deiniolen ennill y cwpan am y drydedd flwyddyn yn olynol?

Sôn am ddrama! 8 munud pob ffordd – dim sgôr. 10 munud ychwanegol o 'gôl aur' – dim gôl. Rhaid oedd troi at y ciciau o'r smotyn. Sôn am densiwn! Roedd pawb wedi anghofio am y piwiaid oedd yn heidio o'r llyn. Gorau o 5 cic. 3-3 yr un. Ble'r oedd y camerâu? Cyntaf i sgorio – neu cyntaf i fethu. Methodd Bethel eu cic gyntaf a throi Gwilym Tomos yn arwr i bentref Deiniolen. Am ffeinal. Twrnament plwyfol! Sgersli bilîf. Wela' ni chi flwyddyn nesaf.

# BEICIO

Bu Gareth McGuiness o Lanrug yn amlwg unwaith eto yr haf hwn mewn cystadlaethau beicio lleol ac yn Lloegr. Yn ystod mis Awst bu'n cystadlu yn Stourport, swydd Gaerwrangon, mewn ras 70 milltir. Roedd yn un o gŵp o wyth beiciwr a dorrodd yn rhydd o'r pac, a diflannu o'u golwg. Yn anffodus i'r wyth cawsant eu dal yn ôl gan dractor a bu'n rhaid stopio'r ras a'i hail-gychwyn gyda dim ond hanner munud o fantais yn cael ei ganiatau i grŵp Gareth. Er hynny, methodd y mwyafrif o'r pac eu dal, ac mewn diweddglo cyffrous gorffennodd Gareth yn bumed.

Ddiwedd Awst roedd nifer o feicwyr lleol yn cystadlu ym Mrynsiencyn ar gwrs o wyth milltir. Roedd Gareth McGuiness ar ei orau unwaith yn rhagor, gan dorri'r record am y cwrs mewn amser o 17 munud 27 eiliad – cyflymder o 27 milltir yr awr. Roedd dros funud ar y blaen i'r ail a'r trydydd; Gary Ellis o Rostryfan ac Iwan Morton o Gwm y Glo.

## RAS Y GARN, RHYD-DDU

Ganol Awst, a llawer ar eu gwyliau, deg ar hugain o redwyr a fentrodd y ddringfa serth mewn tywydd gwlyb iawn a llethr hynod o lithrig wrth ddychwelyd. Daeth Chris Forrest (Ceunant) yn bedwerydd yn y ras ac yn gyntaf dros 50 oed. Roedd Arwel Lewis (Bethel) yn drydydd dros 50 oed. Daeth Dafydd Thomas (Llanrug) yn gyntaf dros 60 oed a Maggie Oliver (Dinorwig) y ferch gyntaf dros 60 oed.

Mab Chris, Kierran Forrest, oedd yn fuddugol yn y ras ieuenctid, a sicrhau'r ail wobr yng nghyfres ieuenctid gogledd Cymru. Llongyfarchiadau mawr iddo.

## I ddod…

Erbyn i'r 'Eco' hwn eich cyrraedd, bydd Ras y Cnicht wedi ei chynnal, a Phedol Peris ar y 3ydd o Fedi. Ar Sadwrn, yr ail ar bymtheg o Fedi, bydd Pencampwriaethau Rhedeg Mynydd Ieuenctid Gogledd Cymru yn cael eu cynnal ar Y Gogarth, Llandudno. Mae gobaith y gwelir nifer o wobrau yn dod i'r ardal.

Bydd hufen y rhedwyr mynydd yn dod i Lanberis ar Sadwrn 24ain o Fedi pan gynhelir Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd y Gymanwlad yma. Mae'n rhan o benwythnos arbennig gyda rasys eraill yn Llandudno ac yng Nghoedwig Niwbwrch.

## TYMOR NEWYDD

Mae'r tymor pêl-droed newydd wedi cychwyn yn lleol a bydd cryn edrych ymlaen. Llanrug yw'r uchaf o ran statws eleni. Cafwyd dechrau boddhaol, a buddugoliaeth dda yng Nghwpan Cymru draw ym Mhwllheli. Llandyrnog fydd y gwrthwynebwyr nesaf. Gobeithio am dymor cyson ar Eithin Duon a distewi clochdar y Cofis!

Efallai, wedi colli ambell chwaraewr dawnus, bod Llanberis ar y lefel cywir y tymor hwn. Cafwyd dechrau da gan ennill eu dwy gem agoriadol, er colli draw yn Llanfair ym Muallt yng Nghwpan Cymru.

Bydd yn dymor anodd i Bethel. Collwyd sawl chwaraewr, a hefyd llawer o brofiad tu ôl i'r llenni. Trueni fuasai gweld y sylfeini cadarn a osodwyd yn y clwb yma yn gwegian. Bydd y pwyslais ar aros yng Nghynghrair Gwynedd gyda thîm ifanc ac un sydd yn rheoli am y tro cyntaf. Bydd angen tipyn o 'ysbryd'.

Ai hwn fydd y tymor y bydd Waunfawr yn esgyn i Gynghrair Gwynedd? Gobeithio, ond credaf y bydd adran gyntaf Cynghrair Caernarfon yn fwy cystadleuol eleni. Ceisio cyrraedd yr adran gyntaf fydd Llanbabo, ond bydd angen mwy o gysondeb os am lwyddiant. Mae'n dymor hir. Amser a ddengys.


**BYSUS RHIWLAS**



Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

**D. P. OWENS** RHIWLAS

**E. W. Pritchard**
CENTRAL GARAGE, Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU

Sychlanhau • Altro Ailwnïo Gwasanaeth Casglu a Danfon

SWIGOD A SEBON

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870088

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

www.fframia.com

**FFRAMIA**
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com
Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

# CHWARAEON

# RAS MYNYDD

## RAS YR WYDDFA

Mae prysurdeb mawr misoedd yr haf drosodd bellach, ond mae nifer o rasys eraill yn dal ar y gorwel. Cafwyd wythnos arbennig o lwyddiannus yn Llanberis – rasys y plant ar y nos Iau yn denu nifer da iawn o bob oedran, a'r holl ieuenctid yn cael y fraint o ddiweddu'r rasys ar draws y Ddôl, yn union fel y byddai'r ras fawr ddeuddydd yn ddiweddarach. Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr a'r holl redwyr, ond yn arbennig i'r trefnwyr – ac yr oedd y tywydd hyd yn oed yn ffafriol!

Denodd Ras yr Wyddfa y gefnogaeth arferol gan y rhedwyr a'u teuluoedd, ac am unwaith cafwyd ras werth chweil rhwng y goreuon. Da gweld cymaint o redwyr lleol bellach yn ymddiddori yn y gamp o redeg mynydd. Pwy a ŵyr na ddaw olynydd teilwng i Colin Jones, Pontrug, maes o law. Yr oedd rasys ieuenctid ar ddiwrnod y ras hefyd a daeth 88 i gystadlu. Llongyfarchiadau i'r canlynol: Efa Halliday, Ysgol Gynradd Llanrug (3ydd dan 10 oed); Kieran Forrest a Gethin Thomas, Ysgol Llanrug (2il a 3ydd dan 12 oed); Dylan Thomas, Ysgol Brynrefail (1af dan 14 oed); Llinos Haf Jones a Sioned Phillips, Ysgol Brynrefail (1af a 3ydd dan 12 oed); a Bronwen Jenkinson, Waunfawr (2il dan 14 oed).



## Canlyniadau Cyfres Nos Fawrth

Noddwyd y gyfres gan gwmni Joe Brown, Llanberis, a daeth 256 o redwyr i gystadlu yn y deg ras eleni; y nifer mwyaf ers i'r gyfres gychwyn. Yn ôl y darogan, daeth nifer o wobrau i'r fro. Mathew Roberts, sydd bellach wedi ymgartrefu yn Llanberis, oedd enillydd y gyfres. Roedd Paul Jenkinson (Waunfawr) yn ail yn yr adran dros 40 oed; Arwel Lewis (Bethel) yn drydydd dros 50 oed a Dafydd Thomas (Llanrug) yn gyntaf dros 60 oed. Roedd Rhys James (Deiniolen) yn ail dan 16 oed. Yn adran y merched, Sarah Ridgway (Nant Peris) oedd yn fuddugol, gyda Libby Peters (Dinorwig) ac Ali Thomas (Llanberis) yn gyntaf a thrydydd dros 40 oed. Stel Farrar (Dinorwig) oedd yn ail dros 50 oed a Maggie Oliver (Dinorwig) yn gyntaf dros 60 oed.

Bu cystadlu brwdfrydig iawn yn adran y plant, gyda'r nifer mwyaf erioed yn troi allan yn rheolaidd – ac yn mwynhau. Mae'r mwyafrif o'r enillwyr yn dod o'r fro. Dyma eu llun gyda threfnydd y rasys, Mike Blake, yn dilyn y noson wobrwyo yn Llanberis ar ôl y ras olaf ar lethrau Moel Eilio.









*Efa*






*Dylan*

### Ras Elidir

Wythnos cyn Ras yr Wyddfa cynhaliwyd y ras hon o Nant Peris, a daeth nifer o lwyddiannau lleol. Daeth Ian Jones (Llanberis), Dyfed Thomas (Llanrug) a Kevin Edwards (Llanberis) yn ail, trydydd a phedwerydd o dan 40 oed; Paul Jenkinson (Waunfawr) yn gyntaf dros 40 oed, Dafydd Thomas (Llanrug) yn gyntaf dros 60 oed a Stel Farrar (Dinorwig) yn ail ferch dros 50 oed. Roedd deugain o redwyr yn cystadlu ar dywydd gwlyb a thirwedd llithrig.

## LLONGYFARCHIADAU HWYR

Gobeithiol oeddym yn y rhifyn diwethaf ynglŷn a thîm Snwcer Deiniolen. Ni fu raid poeni, gan iddynt gipio'r Goron Driphlyg – y Gynghrair, Cwpan yr Adran a'r Gwpan Patterson, sy'n agored i'r ddwy adran. Tipyn o le yn Neiniolen yn ystod tymor gemau'r gaeaf diwethaf. Da iawn nhw!

## HERIO'R BYD

Erbyn y rhifyn nesaf bydd Cwpan Rygbi'r Byd yn hawlio'r penawdau. Fel pob tro mae gobeithion y dilynwyr yn uchel, a chyda'r ddwy fuddugoliaeth ddiwethaf dylai fod yn garfan hyderus. Mae'n garfan ffit a chorfforol, gyda fflachiadau cynhenid sy'n gallu tanio torf. Heb os, mae Cymru yn y grŵp mwyaf corfforol, ac fe amlygir unrhyw wendidau yn sydyn iawn. Gobeithio na fydd Cymru yn dychwelyd o 'wlad y cwmwl gwyn' dan gwmwl du. Daeth yr awr – a ddaeth y dyn?